

Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a Naomi Stocks
fideogynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mercher, 4 Mawrth 2026 0300 200 6565
Amser: 09.30 SeneddPlant@senedd.cymru

Hybrid

Rhag-gyfarfod preifat

09.15 – 09.30

Cyfarfod cyhoeddus

09.30 – 11.00

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

2 Gwaith craffu cyffredinol Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol

09.30 – 11.00

(Tudalennau 1 – 31)

Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol

Dawn Bowden AS, Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

Sarah Murphy AS, Y Gweinidog lechyd Meddwl a Llesiant

Abigail Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd a Nyrsio

Alex Slade, Cyfarwyddwr lechyd Meddwl, Gofal Sylfaenol a'r Blynyddoedd

Cynnar

Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

3 Papurau i'w nodi

11.00



Senedd Cymru
Welsh Parliament

3.1 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

(Tudalennau 32 – 33)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Keith Towler
(Saesneg yn unig)

3.2 Gwella ysgolion a chyrhaeddiad dysgwyr

(Tudalennau 34 – 47)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gan Gadeirydd y Pwyllgor
Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

3.3 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Llesiant Plant ac Ysgolion

(Tudalennau 48 – 49)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gan Gadeirydd y Pwyllgor
Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3.4 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

(Tudalennau 50 – 51)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Gyfarwyddwr
Cymru y Sefydliad Dysgu a Gwaith (Saesneg yn unig)

3.5 Arolygiaeth Gofal Cymru: Craffu Blynnyddol

(Tudalennau 52 – 55)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Brif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru gan Gadeirydd y Pwyllgor
Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

3.6 SL(6)763 – Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2026

(Tudalennau 56 – 57)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

3.7 Gweithredu diwygiadau addysg

(Tudalennau 58 – 67)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

3.8 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Llesiant Plant ac Ysgolion

(Tudalennau 68 – 70)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

3.9 Craffu cyffredinol ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(Tudalennau 71 – 73)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Brif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru oddi wrth Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

3.10 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru

(Tudalennau 74 – 86)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Gomisiynydd Plant Cymru (Saesneg yn unig)

3.11 Craffu Blynyddol ar Medr

(Tudalennau 87 – 89)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Medr

3.12 Craffu cyffredinol ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

(Tudalennau 90 – 93)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Ysgrifennydd
y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

3.13 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

(Tudalennau 94 – 95)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Saesneg yn unig)

3.14 Blaenraglen Waith

(Tudalennau 96 – 112)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon
Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) a (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

11.00

Cyfarfod preifat

11.00 – 12.30

5 Gwaith craffu cyffredinol Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol – trafod y dystiolaeth

11.00 – 11.15

Egwyl

11.15 – 11.30

6 Gwella ysgolion a chyrhaeddiad dysgwyr – briff gan CAL:ON Cymru

11.30 – 12.30

(Tudalennau 113 – 119)

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil: Prosiect CAL:ON

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Papur Tystiolaeth ar Graffu Cyffredinol - Iechyd a Gofal Cymdeithasol

04/03/2026

Crynodeb

Mae'r ddogfen hon yn ymateb i gais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am wybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cynnwys

Cynllun y Gweithlu	3
Gofal Ymataliaeth Pediatrig	3
Plant Gordew a Dros eu Pwysau	5
Gofalwyr Ifanc	6
Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal	7

Cynllun y Gweithlu

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i flaenoriaethu buddsoddi yng ngweithlu GIG Cymru i sicrhau gofal o ansawdd uchel i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Mae gwaith cynllunio'r gweithlu ar gyfer y GIG yn cael ei arwain yn genedlaethol gan Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC), ac yn cyd-fynd â *Strategaeth 10 Mlynedd y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*. Mae'n darparu fframwaith tymor hir ar gyfer hyfforddi, datblygu a chyflenwi'r gweithlu yn y dyfodol ar draws pob proffesiwn, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau pediatrig ac iechyd plant.

Er nad oes un cynllun gweithlu unigol sy'n ymroddedig i bediatreg yn unig, mae sawl cynllun strategol presennol yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer y gweithlu sy'n uniongyrchol berthnasol i iechyd plant, gan gynnwys:

- Cynllun Gweithlu Amenedigol
- Cynllun y Gweithlu Nyrsio
- Cynllun Datblygu Gweithlu Proffesiynol Perthynol i Iechyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £294 miliwn bob blwyddyn i gefnogi addysg a hyfforddiant gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r buddsoddiad hwn yn cynnal niferoedd comisiynu ar gyfer addysg a hyfforddiant gofal iechyd proffesiynol ac yn cefnogi twf y gweithlu amlbroffesiynol ledled GIG Cymru, er gwaethaf y pwysau ariannol sylweddol.

Mae'r ymrwymiad parhaus hwn yn sicrhau bod Cymru'n datblygu gweithlu cynaliadwy a gwydn sy'n gallu diwallu anghenion y boblogaeth nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys iechyd plant.

Gofal Ymataliaeth Pediatrig

Rydym yn cydnabod bod cyflyrau ymataliaeth yn effeithio ar lawer o blant yng Nghymru, ac rydym yn cryfhau canllawiau ar draws gwasanaethau iechyd ac addysg i sicrhau bod gofal yn gyson, yn seiliedig ar hawliau ac yn canolbwyntio ar anghenion clinigol unigol.

Cyflwyniad a datganiad

Mae cyflyrau ymataliaeth ymhlith y problemau iechyd mwyaf cyffredin sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Gall eu heffaith fod yn ddwfn, ond mae diffyg dealltwriaeth a chefnogaeth yn parhau. Mae stigma ac embaras yn gyffredin; gall plant osgoi triapiau ysgol a chysgu dros nos oddi cartref, gallant fynd i'w cragen yn gymdeithasol, a phrofi llesiant a chynnydd addysgol is. Yn y cyd-destun hwn, mae canllawiau cryfach ac ymarfer cyson ar draws iechyd ac addysg yn hanfodol, ac mae hawliau CCUHP yn sail i'r rhain.

Graddfa ac achosion (amcangyfrif Cymru; tystiolaeth y DU)

Nid oes set ddata genedlaethol yng Nghymru sy'n meintio achosion ymataliaeth pediatrig na nifer y plant sy'n cael cynhyrchion/gwasanaethau. Mae ffynonellau'r DU a ddefnyddiwyd ar gyfer cynllunio yn amcangyfrif bod ~900,000 o blant wedi'u heffeithio; cyffredinrwydd cyfunol ar gyfer rhwymedd

swyddogaethol ~9.5% (gyda hyd at 32.2% wedi'i adrodd); gwlychu yn ystod y dydd ~2.8% (6–14 oed); gwlychu'r gwely ~15.5% yn 7½oed; gyda mwy o achosion mewn plant ag anghenion ychwanegol. Mae cymhwysu'r rhain i ~630,000 o blant dan 18 oed yng Nghymru yn golygu ei bod yn debygol bod ~50,000 o blant yn debygol o fod ag anhawster gyda'r bledren/coluddyn, ~60,000 gyda rhwymedd a ~17,500 gyda gwlychu yn ystod y dydd (6–14). Amcangyfrifon yw'r rhain, nid ystadegau swyddogol.

Mae asesiadau ehangach yn y DU yn dangos bod gan ~1.5 miliwn o blant (~1 o bob 9) broblemau gyda'r bledren/coluddyn, sy'n atgyfnerthu graddfa'r angen tebygol yng Nghymru a'r achos dros well data a chysondeb comisiynu.

Cysondeb mewn addysg a chanllawiau newydd i ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob ysgol a gynhelir fod â pholisi gofal agos, fel y cyfeirir ato yn y *Canllawiau Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd* (2017). Mae'r canllawiau hefyd yn cynnig cyngor a gwybodaeth ynghylch datblygu Cynlluniau Gofal Iechyd a diwallu'r anghenion hyn o fewn y diwrnod ysgol.

Yn ogystal, mae *Toileddau'r Ysgol: Canllawiau arfer da ar gyfer ysgolion yng Nghymru* yn rhoi canllawiau pellach i gyrrff llywodraethu a phenaethiaid ar faterion sy'n ymwneud â'r safonau ar gyfer toileddau dysgwyr a chyfleusterau cysylltiedig sy'n ofynnol mewn ysgolion yng Nghymru. Trwy ein dull o ymdrin â Chwarae, Dysgu a Gofal mewn Plentynod Cynnar, rydym yn annog lleoliadau ac ysgolion i gydweithio i gryfhau'r cynllunio ar gyfer pontio, yn enwedig ar gyfer y plant mwyaf agored i niwed.

Mae lleoliadau addysg yn chwarae rôl hanfodol: mae polisiâu hydradu, mynediad agored i doileddau, preifatrwydd a chynllunio gofal unigol yn dylanwadu'n uniongyrchol ar iechyd, urddas a dysgu. Mae'r canllawiau diweddaraf *Rheoli Materion y Bledren a'r Coluddyn mewn Ysgolion* (2022) yn rhoi mesurau ymarferol ar gyfer ysgolion ac yn egluro rôl y gwasanaeth nyrsio ysgolion, ymwelwyr iechyd a gwasanaethau ymataliaeth arbenigol wrth gyd-gynhyrchu cynlluniau gofal. Mae Llywodraeth Cymru yn anfon y deunyddiau hyn at ysgolion a phartneriaid.

Cefndir polisi (Iechyd Cymru)

Mabwysiadodd WHC/2022/004 gonsensws 2021 Bladder and Bowel UK gan geisio cysondeb ar draws y Byrddau Iechyd. Eglurodd fod cynhyrchion yn cael eu darparu yn dilyn asesiad, a bod “pedwar pad mewn 24 awr” yn ganllaw yn seiliedig ar anghenion a aseswyd, a bod pump oed yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel yr oedran ar gyfer cael mynediad at y cynhyrchion hyn. Nid oes unrhyw ddyletswydd statudol i ddarparu cynhyrchion; ceisiodd y Cylchlythyr leihau amrywiad trwy osod gogwydd cenedlaethol.

Pam bod angen newid pellach

Mae sefydliad elusennol, drwy gyfrwng ei adroddiad manwl ar gyfer 2025, wedi herio agweddau ar ganllawiau'r DU a Chymru fel rhai a allai fod mewn perygl o wahaniaethu'n anuniongyrchol a

rhwystro disgresiwn lle roedd dangosyddion isafswm oedran a niferoedd cynnyrch dangosol yn cael eu dehongli'n anhyblyg. Mewn ymateb, diwygiodd proses rhanddeiliaid y DU gyfan y canllawiau consensws i Fersiwn 16 (Rhagfyr 2025), gan gryfhau ymwadiadau a phwysleisio dro ar ôl tro bod yn rhaid i benderfyniadau fod yn seiliedig ar anghenion clinigol unigol; fodd bynnag, mae F16 yn dal i gadw'r cyfeiriadau gweddilliol at oedran, y mae'r elusen yn dadlau y gallai aros yn amwys neu'n wrthgyferbyniol heb eglurhad a golygu pellach.

Y sefyllfa bresennol a'r bwriad

- Mae gweinidogion wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn flaenorol yn cadarnhau dull sy'n seiliedig ar hawliau, ledled y DU, gan atgyfnerthu bod “pedwar pad” yn feincnod, yn hytrach na chap, ac yn ymrwymo i ganllawiau cliriach, hawdd eu defnyddio.
- Mae swyddogion wedi ymgysylltu â BBUK, arweinwyr clinigol Cymru a rhanddeiliaid, i ddatblygu F16 a pharatoi Cylchlythyr newydd yn 2026 ar gyfer Cymru, yn amodol ar gyngor y Gwasanaethau Cyfreithiol.
- Eglurder mewn geiriau: Cydgrynhoi'r holl ddatganiadau oedran/niferoedd mewn un adran “Egwyddorion Ymarfer”: *asesiad clinigol unigol yn gyntaf; mae cyfeiriadau at oedran a rhifau yn enghreifftiol - nid terfynau ydynt; rhaid i glinigwyr adael os yw'r angen a aseswyd yn mynnu hynny, gan gofnodi eu rhesymeg*
- Cryfhau'r rhyngwyneb addysg: Hyrwyddo canllawiau a chynllunio gofal presennol yr ysgolion i sicrhau mynediad at ddiodydd a thoiledau, preifatrwydd ac urddas, a chysylltiad cyson â gweithwyr iechyd proffesiynol.

Plant Gordew a Dros eu Pwysau

Cyhoeddwyd y Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach 2 flynedd newydd ym mis Medi 2025 gyda chytundeb y Cabinet. Mae'r cynllun yn targedu camau gweithredu ac adnoddau tuag at blant a phobl ifanc a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae gan y cynllun chwe adran, sy'n canolbwyntio ar ein themâu blaenoriaeth. Dyma'r themâu:

- ymgorffori dull system gyfan
- cefnogi teuluoedd a'r sylfeini ar gyfer iechyd gydol oes
- ysgolion a lleoliadau sy'n cefnogi iechyd da
- creu amgylcheddau bwyd iachach
- bywydau egniol
- llwybrau triniaeth

Mae camau gweithredu ac ymrwymadau ar draws pob thema o fewn y Cynllun Cyflawni yn canolbwyntio ar ddarparu'r gefnogaeth i fabanod, plant a phobl ifanc gael y dechrau gorau mewn bywyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu dros £4 miliwn o gyllid yn 2026-2027 tuag at barhau i gyflawni a gweithredu rhaglenni canlynol y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach:

- Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan
- Pwysau Iach, Byw'n Iach
- Ymagwedd System Gyfan at Bwysau Iach
- PIPYN (cynlluniau peilot rheoli pwysau plant a theuluoedd)
- Cynllun Hamdden Egniol 60+
- Cefnogwyr Ffit

Gofalwyr Ifanc

Er y dylid cydnabod a gwerthfawrogi rôl gofalwyr ifanc, gyda'n gilydd rhaid inni sicrhau nad yw hyn yn arwain at anfantais i'w haddysg neu agweddau eraill ar eu bywydau ifanc.

Gofalwyr ifanc mewn addysg

Rydym yn ymrwymedig i gyfle cyfartal a darpariaeth deg ym maes addysg ac mae cefnogi gofalwyr ifanc yn rhan annatod o'n blaenoriaethau i godi safonau a gwella presenoldeb a chyrhaeddiad i bob dysgwr.

Er bod gan rai ysgolion systemau datblygedig i gefnogi gofalwyr ifanc, mae prosesau casglu data ar ofalwyr ifanc yng Nghymru yn anghyson ar hyn o bryd, gan ei gwneud yn anodd darparu cymorth wedi'i dargedu lle mae ei angen fwyaf. Rydym wedi rhoi dull gweithredu â thri cham ar waith ar gyfer gwella prosesau casglu data dros gyfnod o ddwy flynedd.

Caiff y cam cyntaf ei gwblhau yn hanner cyntaf 2026 a bydd yn coladu data o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, gan roi cipolwg ar brofiad gofalwyr ifanc yn yr ysgol a'u llesiant. Bydd cam dau yn cysylltu'r wybodaeth hon â data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw ac yn golygu y gellir cymharu cyrhaeddiad addysgol gofalwyr ifanc o gymharu â'u cyfoedion. Rydym hefyd yn ystyried dull dibynadwy hirdymor pellach o gasglu data, gan gynnwys ystyried gwneud newidiadau deddfwriaethol i'r Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) er mwyn cynnwys gofalwyr ifanc.

Rydym wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i ddatblygu deunyddiau diwygiedig ar gyfer staff addysg er mwyn iddynt ddeall mwy am ofalwyr ifanc ac ymgysylltu â disgyblion. Mae'r wybodaeth hon ar gael nawr ar wefan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac mae disgwyl iddi gael ei huwchlwytho i'r platfform addysg perthnasol.

Mae ein Cynllun Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu yn galluogi darparwyr Addysg Uwch i gefnogi cyflogadwyedd myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc. Gall gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc o aelwydydd incwm isel gael gafael ar y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn os ydynt yn bodloni meini prawf cymhwysedd.

Mae Medr yn ariannu ac yn rheoleiddio addysg drydyddol yng Nghymru ac mae'n disgwyl i golegau a phrifysgolion ddileu rhwystrau i gyfranogiad, cyfraddau cadw, llwyddiant a chynnydd. Rydym yn sicrhau bod prifysgolion yng Nghymru yn cynnwys gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn eu rhaglenni er mwyn darparu cymorth ariannol a bugeiliol.

Cardiau adnabod i ofalwyr ifanc

Gwnaethom weithio gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn 2022 i ddatblygu Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc ac mae awdurdodau lleol wedi bod yn gweithredu cynlluniau cardiau yn annibynnol ers 2023. Mae'r cardiau adnabod yn adnodd allweddol i helpu i adnabod gofalwyr ifanc mewn ysgolion, colegau a fferyllfeydd.

Gwnaethom anfon deunyddiau newydd ym mis Rhagfyr 2024 er mwyn galluogi pob awdurdod lleol i hyrwyddo ei gynllun ac rydym wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol ynglŷn â chamau pellach i sicrhau bod cynifer o ofalwyr ifanc â phosibl yn manteisio ar gynlluniau o'r fath, ac mae'r camau hyn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Mathau eraill o gymorth

Gall gofalwyr ifanc fanteisio ar ein cynllun Seibiannau Byr a'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr. Mae hyd at chwarter y rhai sy'n cael seibiannau byr a 18% o'r rhai sy'n defnyddio'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr yn ofalwyr ifanc.

Rydym yn parhau i gefnogi Gŵyl Gofalwyr Ifanc Cymru a gaiff ei chynnal bob blwyddyn ac rydym wedi cytuno ar £54,000 o gyllid i gefnogi'r digwyddiad nesaf ym mis Awst 2026. Mae'r ŵyl yn darparu seibiant dros dri diwrnod i fwy na 300 o ofalwyr ifanc, gyda chyfleoedd pwysig iddynt gael gwybodaeth a chymorth.

Cynrychioli gofalwyr ifanc

Caiff ein Bwrdd Cynghori ar Ofalwyr Ifanc ei gynnal gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac mae pob aelod yn ofalwr ifanc. Mae'r adnodd gwerthfawr hwn yn craffu ar ein gwaith ac yn ei lywio. Mae gofalwyr ifanc hefyd yn aelodau gweithredol o Grŵp Cynghori'r Gweinidog.

Rydym wedi sefydlu is-grŵp gofalwyr ifanc o Grŵp Cynghori'r Gweinidog er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisiau a hyrwyddo camau i ledaenu arferion gorau.

Rydym yn ymgysylltu ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i hwyluso Rhwydwaith Proffesiynol Gofalwyr Ifanc Cymru Gyfan o swyddogion awdurdodau lleol a thrydydd sector sy'n gweithio gyda gofalwyr ifanc.

Llofnododd Llywodraeth Cymru y Cyfamod Gofalwyr Ifanc ym mis Tachwedd 2025. Mae'r Cyfamod yn nodi deg canlyniad allweddol y mae gofalwyr ifanc wedi dweud sy'n allweddol i wella eu bywydau. Rydym am i awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau eraill ddod yn llofnodwyr unigol, a fydd yn hyrwyddo gweledigaeth a rennir ar gyfer gofalwyr ifanc ledled Cymru.

Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 yn golygu mai Cymru yw'r genedl gyntaf yn y DU i ddeddfu i ddileu elw o ofal preswyl a gofal maeth plant, gan osod y sylfaen ar gyfer trawsnewid gwasanaethau plant yn ehangach.

Mae'r gwaith o weithredu'r ymrwymiad yn mynd rhagddo'n gyflym. O 1 Ebrill 2026 ymlaen, ni fydd darparwyr er-elw newydd yn gallu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac ni fydd darparwyr er elw presennol yn gallu ychwanegu gwasanaethau neu leoliadau newydd. Bwriedir i gyfyngiadau pellach ddod i rym yn 2027 a 2030, gan barhau â'r dull gweithredu fesul cam i leihau unrhyw risg o darfu ar leoliadau

Mae datblygu'r is-ddeddfwriaeth i gefnogi gweithredu yn parhau. Yn ddiweddar, lansiwyd ymgynghoriad ar y gofyniad i awdurdodau lleol lunio cynlluniau digonolrwydd blynyddol. Bydd y rhain yn cryfhau cynllunio strategol ac yn hyrwyddo dull mwy cydlynol, tryloyw a chynaliadwy o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc wrth i awdurdodau lleol symud ymlaen â gweithredu. Gweithiodd swyddogion yn agos gydag awdurdodau lleol wrth ddatblygu cynigion ac rydym yn ddiolchgar am eu hymgysylltiad cadarnhaol.

Rydym wedi darparu cefnogaeth ariannol sylweddol i gefnogi cyflawni'r agenda hon, a byddwn yn parhau i wneud hyn. Fe wnaethom ymrwymo £68 miliwn o refeniw i awdurdodau lleol a rhanbarthau dros y tair blynedd hyd at 2024-25 a £75 miliwn arall hyd at 2027-28. Mae cyllid cyfalaf ar wahân hefyd ar gael drwy'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso a'r gronfa Tai â Gofal. Gyda'i gilydd, mae hyn yn cefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu'r gwasanaethau sydd eu hangen i weithredu'r ymrwymiad hwn.

Ochr yn ochr â'r gefnogaeth i awdurdodau a rhanbarthau unigol, rydym hefyd wedi darparu cyllid grant i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i gefnogi awdurdodau lleol i gynllunio a gweithredu ar lefel genedlaethol.

Eitem 3.1

2nd February 2026

Buffy Williams MS
Chair, Children, Young People, and Education Committee

Dear Buffy,

Youth Work in Wales

Thank you for your active consideration of my previous letter to you in November last year about youth work in Wales. I understand that you have a general scrutiny session with the Cabinet Secretary for Education in the Welsh Government on 4th February. I thought I would follow up with some further thoughts.

The Interim Youth Work Board, which I chaired, published a clear set of recommendations in *Time to Deliver (September 2021)* and since then the Youth Work Implementation Board has taken that work further. It could prove instructive to ask to what extent Lynne intends to now implement the recommendations in *Time to Deliver*.

The three pressing issues remain:

Firstly, the so called 'definition' of youth work is neither a definition nor a statement that reflects the aspirations of a sustainable model of youth work delivery as set out in *Time to Deliver*.

Secondly, the proposal to establish a national body for youth work in Wales is welcomed by the sector but the rather top-down bureaucratic controlling body that seems to be envisaged is at odds with the offer of CWYVS and the WLGA to work with Welsh Government officials to develop a partnership model.

And, if there is to be a new framework for youth work with "Draft Directions" and 'Draft Statutory Guidance' as outlined in last year's consultation paper, with little or no amendment, I fear that would be a mistake as the proposals are unrealistic and unworkable.

I wonder if it would be useful to see if the Welsh Government will maintain the well-established approach to the values of youth work services as set *Youth Work in Wales: Principles and Purposes* rather than the rather narrower ideas set out in the 2024 consultation. I attach a link to the *Principles and Purposes* below.

<https://educators.wales/sites/default/files/2023-02/YOUTH%20WORK%20IN%20WALES%20PRINCIPLES%20AND%20PURPOSES%202022.pdf>

To my knowledge the responses to the 2024 consultation have still not been published and I have not seen a Child Rights Impact Assessment in relation to what the Welsh Government propose.

I would be grateful if you would also share my letter with the membership of the Committee.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Keith Towler', followed by a horizontal line that extends to the right.

Keith Towler

Eitem 3.2

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Children, Young People and Education Committee

Lynne Neagle AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

30 Ionawr 2026

Gwella ysgolion a chyrhaeddiad dysgwyr

Annwyl Lynne

Diolch am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 6 Tachwedd 2025 fel rhan o'n gwaith â ffocws yn edrych ar wella ysgolion a chyrhaeddiad dysgwyr. Fel y gwyddoch o bosibl, ochr yn ochr â'ch tystiolaeth ysgrifenedig a llafar, fe wnaethom geisio tystiolaeth ysgrifenedig gan amrywiaeth o randdeiliaid¹ ar draws meysydd penodol o ddiddordeb:

- Dyfodol trefniadau gwella ysgolion a sut mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol yn cydweithio i ddarparu'r safonau addysg uchaf posibl.
- Deilliannau addysgol dysgwyr a bylchau mewn cyrhaeddiad rhwng grwpiau o ddisgyblion.
- Ffactorau sy'n effeithio ar gynnydd addysgol megis absenoldeb disgyblion, amddifadedd, cyllid a chapasiti'r gweithlu.

At hynny, gwnaethom gynnal digwyddiad bord gron preifat² gyda chynrychiolwyr o awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC), penaethiaid ysgolion a chonsortia rhanbarthol.

Efallai eich bod hefyd yn ymwybodol bod y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog wedi cynnal sesiwn gyda'r Prif Weinidog ar 12 Rhagfyr 2025 ar "Addysg, Pobl Ifanc a Chenedlaethau'r Dyfodol", ac roeddwn yn meddwl y dylwn dynnu eich sylw ato i roi mwy o gyd-destun.

¹ Senedd Cymru, 'Gwella Ysgolion a Chyrhaeddiad Dysgwyr', Ebrill/Mai 2025

² Senedd Cymru, 'Gwella Ysgolion a Chyrhaeddiad Dysgwyr: Nodyn ar y Digwyddiad Bord Gron i Randdeiliaid', Medi 2025



Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn tynnu sylw at rywfaint o gynnydd wrth drawsnewid i fodel gwella cydweithredol, dan arweiniad yr ysgol. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid yn glir bod llwyddiant bellach yn dibynnu ar sicrhau eglurder, meithrin capasiti a sicrhau cysondeb ar draws y system. Mae pwysau systemig parhaus – fel presenoldeb, ymddygiad, anfantais economaidd-gymdeithasol a chyllid – yn cyfyngu ar allu'r system i godi safonau a lleihau bylchau cyrhaeddiad, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r heriau hyn yn gofyn am gamau brys a chydlynol. Ar draws y dystiolaeth a ddaeth i law, roedd pwyslais cryf ar yr angen am ddiffiniad cenedlaethol clir o wella ysgolion yn effeithiol, canllawiau cydlynol mewn un lle, a dysgu proffesiynol cyson. Rhybuddiodd ymatebwyr hefyd y gall blinder diwygio a chapasiti lleol anwastad arwain at anghysondeb ac annhegwch.

Mae'r llythyr hwn yn nodi ein barn ar y cyd fel Pwyllgor, gan grynhoi'r dystiolaeth ac amlygu themâu trawsbynciol. Mae'n nodi lle rydym yn croesawu mesurau a gwelliannau sydd eisoes ar y gweill, lle mae pryderon yn parhau neu lle mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon, ac yn gwneud argymhellion neu geisiadau i Lywodraeth Cymru (wedi'u nodi mewn blychau llwyd).

Trefniadau gwella ysgolion yn y dyfodol a gweithio mewn partneriaeth

Rydym yn cydnabod y bwriad clir y tu ôl i'r Rhaglen Bartneriaeth Gwella Ysgolion, sy'n ceisio ymgorffori cydweithredu pwrpasol wrth wraidd gwella ysgolion. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod diffyg eglurder yn y ddealltwriaeth bresennol o wella ysgolion, gan arwain at ddryswch ac arfer anghyson. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod angen mynegiant cliriach o beth yw gwella ysgolion. Dywed fod hyn yn arwain at ddryswch a chamddechongli.³ Roedd galw hefyd am greu diffiniad cenedlaethol o 'sut mae da yn edrych' a chanllawiau cryno wedi'u halinio â fframwaith Estyn⁴.

Rydym yn cydnabod bod Partneriaethau Gwella Ysgolion yn parhau i fod mewn cyfnod pontio, gyda chyfrifoldebau'n esblygu a strwythurau blaenorol yn cael eu diddymu'n raddol. Rydym yn falch bod y dystiolaeth a ddaeth i law eisoes yn dangos bod y mesurau hyn wedi dechrau cryfhau'r berthynas rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol⁵, fodd bynnag, mae llawer o ddryswch o hyd ynghylch rolau a chyfrifoldebau.

Er bod sefydlu'r Tîm Gwella Addysg o fewn Llywodraeth Cymru a chreu Dysgu fel corff dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth cenedlaethol yn cael eu hystyried yn gamau cadarnhaol, mae CLILC/CCAC yn rhybuddio bod y manylion yn parhau i gael eu datblygu a "heb y tîm canolog yn ei le

³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant (Saesneg yn unig), Ebrill 2025

⁴ Senedd Cymru, 'Gwella Ysgolion a Chyrhaeddiad Dysgwyr: Nodyn ar y Digwyddiad Bord Gron i Randdeiliaid, Medi 2025

⁵ Senedd Cymru, 'Gwella Ysgolion a Chyrhaeddiad Dysgwyr: Nodyn ar y Digwyddiad Bord Gron i Randdeiliaid, Medi 2025

eto ... rhaid i ysgolion, arweinwyr ysgolion ac awdurdodau lleol lenwi rhai o'r bylchau yn y tymor byr a chanol".⁶ At hynny, mae un awdurdod lleol yn parhau i fod heb ei argyhoeddi ynghylch sut y bydd corff cenedlaethol newydd yn ychwanegu gwerth oherwydd ei fod mewn camau datblygu cynnar iawn.⁷

Ni ddylid anghofio bod newidiadau i wella ysgolion yn digwydd yn ystod cyfnod o ddiwygio sylweddol ar draws y system. Mae CLILC/CCAC yn adrodd bod cyflymder y diwygio yn profi'n llethol i ysgolion ac awdurdodau lleol, gan gyfrannu at flinder diwygio ar draws y system. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod yn rhaid i reoleiddwyr fod yn ymwybodol o'r cyd-destun hwn ar gyfer ysgolion, a bod angen eu hintegreiddio i'r daith ddiwygio i sicrhau bod fframweithiau atebolrwydd yn adlewyrchu pwysau pontio'r system.⁸

Mae pryderon pellach yn ymwneud â'r amrywiad mewn capasiti lleol a'r risg o anghysondeb ledled Cymru wrth i gonsortia rhanbarthol ddiddymu a modelau lleol newydd ddod i'r amlwg. Dywedodd Estyn wrthym pe bai gan Gymru 22 o ddulliau gwahanol o ran gwerthuso, rhifedd, llythrennedd, y byddai'n drychineb a bod yn rhaid osgoi'n llwyr mynd yn ôl at fodel lle mae 22 o grwpiau'n cyflawni'r un peth.⁹

Nodwn fod strwythurau gwella ysgolion wedi gwneud cylch llawn i raddau helaeth. Sefydlwyd consortia rhanbarthol yn sgil pryderon ynghylch gallu awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldeb statudol i sbarduno gwelliant ysgolion. Rydych wedi dweud 'nad ydym yn yr un lle' ag yr oeddem dros ddegawd yn ôl pan oedd nifer o wasanaethau addysg awdurdodau lleol eu hunain o dan fesurau arbennig, ac nad yw'r trefniadau newydd yn syml yn ddychweliad i sefyllfa lle mae awdurdodau lleol yn gweithredu ar eu pen eu hunain.

Roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried consortia rhanbarthol yn ateb i'r angen hirhoedlog i godi safonau ac mae'r datblygiadau diweddaraf hyn yn dangos nad yw polisi wedi llwyddo'n llawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig, lle bu arfer da, ei fod yn cael ei gadw, ei fabwysiadu a'i ddatblygu er mwyn osgoi cael gwared ar yr hyn sy'n dda yn ogystal â'r hyn sy'n ddrwg.

Mae rhanddeiliaid hefyd wedi tynnu sylw at y posibilrwydd o golli arbenigedd penodol-i-bwnc, a mynediad anghyfartal at gymorth, yn enwedig ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac arbenigol, gydag un rhanddeiliad yn nodi na ddylai unrhyw ysgol, athro na dysgwr fod dan anfantais oherwydd daearyddiaeth¹⁰.

⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, 'Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru', Mai 2025

⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, 'Cyngor Abertawe' (Saesneg yn unig), Ebrill 2025

⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, 'Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru', Mai 2025

⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 129

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant (Saesneg yn unig), Ebrill 2025



Argymhelliad 1: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro gallu a chapasiti awdurdodau lleol yn agos i arwain y gwelliant angenrheidiol mewn ysgolion ac i godi safonau, gan adolygu'n barhaus effaith y newidiadau diweddaraf hyn ar y ffordd y mae swyddogaethau a gwasanaethau gwella ysgolion yn cael eu strwythuro a'u darparu. Rydym hefyd yn argymell bod elfennau o arfer da sydd wedi dod i'r amlwg ac sy'n cael eu datblygu drwy weithio rhanbarthol dros y degawd diwethaf yn cael eu hymgorffori yn y trefniadau newydd.

Argymhelliad 2: Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau y gall canllawiau newydd ar wella ysgolion gefnogi'r gwaith o godi safonau a hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin a chyson o'r hyn a olygir o ran gwella ysgolion yn effeithiol. Dylai'r canllawiau cyfunol hyn fod ar gael mewn un lleoliad hygrych a bod yn gydnaws â fframwaith arolygu Estyn.

Cais 1: Rydym hefyd yn gofyn am gynllun clir sy'n nodi cynnig dysgu proffesiynol Dysgu ac yn cadarnhau mecanweithiau i atal modelau lleol anghyson, gan gynnwys sut y bydd capasiti arbenigol yn cael ei ddiogelu. Gan nodi'r hyn sydd eisoes wedi'i ddarparu yn llythyr yr Ysgrifennydd Cabinet dyddiedig 26 Tachwedd, rydym yn gofyn am fanylion pellach ynghylch sut yn union y mae Dysgu yn gweithredu yn ystod ei flwyddyn drosiannol, rôl Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn a'r broses i Dysgu ymgymryd â'i swyddogaethau'n llawn ym mis Medi 2026.

Canlyniadau dysgwyr

Mae'r dystiolaeth yn cyflwyno darlun cymhleth o gyrhaeddiad dysgwyr yng Nghymru. Er bod rhai dangosyddion yn awgrymu adferiad o'r pandemig, mae heriau systemig yn parhau.

Cyfnod Allweddol 4

Mae perfformiad Cyfnod Allweddol 4 mewn pynciau craidd wedi dychwelyd i raddau helaeth i lefelau cyn y pandemig, gyda'r sgôr 'Capio 9' yn 354.3 yn 2024/25 o'i gymharu â 254.4 yn 2018/19. Fodd bynnag, mae'r Dystysgrif Her Sgiliau wedi gweld dirywiad nodedig, o 36.4 yn 2018/19 i 29.0 yn 2024/25. Mae patrymau gradd yn atgyfnerthu'r darlun cymysg hwn: mae graddau A*-A yn parhau'n sefydlog ar tua 20 y cant, ond mae graddau A*-C wedi gostwng o 71.9 y cant yn 2015/16 i 63.9 y cant yn 2024/25, gan awgrymu heriau parhaus o ran codi cyrhaeddiad cyffredinol.

Mewn cyferbyniad, mae perfformiad Safon Uwch yn dangos gwelliant calonogol. Cododd graddau A*-A o 21.2 y cant yn 2015/16 i 29.9 y cant yn 2024/25, tra bod graddau A*-C wedi cyrraedd 78.6 y cant, gyda Chymru bellach yn perfformio'n well na Lloegr yn gyffredinol ar lefel Safon Uwch, ac yn enwedig o'i gymharu ag addysg a ariennir gan y wladwriaeth yn Lloegr.

Meincnodi rhyngwladol

Mae canlyniadau diweddaraf y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) 2022 yn dangos bod Cymru yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran cyrhaeddiad addysgol. Roedd perfformiad mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth islaw cyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ac roedd ar ei isaf ymhlith gwledydd y DU. Mae'r canfyddiadau hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd meincnodi rhyngwladol cadarn i lywio penderfyniadau polisi a gyrru gwelliant. Nododd Cyngor Abertawe y gallai fod o gymorth cael disgwyliadau cenedlaethol gwell ar ddarllen ac ysgrifennu. Gwyddom fod canlyniadau darllen yng Nghymru, o'u cymharu'n rhyngwladol, yn dangos bod Cymru mewn dirywiad.¹¹

Er bod PISA yn rhoi cipolwg amhrisiadwy ar berfformiad pobl 15 oed, nid yw'n cofnodi camau cynharach dysgwyr lle mae sgiliau sylfaenol yn cael eu datblygu. Am y rheswm hwn, rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gymryd rhan yn PIRLS (Astudiaeth Cynnydd mewn Llythrennedd Darllen Rhyngwladol) yn 2026 a TIMSS (Astudiaeth Tueddiadau mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth) yn 2027 fel rhan o ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o wella rhifedd a llythrennedd, gan sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn gyson ag arfer gorau byd-eang ar draws pob cyfnod o addysg.

Asesiadau personol

Mae data asesu personol yn datgelu darlun cymysg, gyda chyrhaeddiad yn gostwng yn sydyn yn ystod y pandemig ac yn gwella'n rhannol yn unig. Ar gyfer darllen Saesneg, roedd y lefelau ar eu hisaf yn 2022/23, ond mae disgyblion Blwyddyn 3 yn 2023/24 bellach yn perfformio'n well na'r cohortau blaenorol, sy'n awgrymu bod yr adferiad cryfaf yn y blynyddoedd cynnar. Mewn cyferbyniad, mae Blynyddoedd 6 a 9 yn parhau i fod islaw lefelau 2020/21, sy'n dangos nad yw cohortau hŷn wedi adennill tir coll.¹² Mae darllen Cymraeg yn dilyn trywydd tebyg, gyda pherfformiad Blwyddyn 9 yn destun mwy o bryder na grwpiau oedran eraill.

Mae rhifedd yn dangos patrwm cymharol. Mae rhifedd gweithdrefnol wedi gwella ers ei bwynt isaf yn 2021/22, ond mae'n parhau i fod islaw meincnodau 2018/19. Mae adferiad yn fwyaf amlwg ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 6, tra bod Blwyddyn 9 yn parhau i lusgo ar ei hôl hi. Yn fwy pryderus yw rhesymu rhifyddol, a gyflwynwyd yn 2021/22, lle mae cyrhaeddiad Blwyddyn 9 yn 2023/24 ar ei bwynt isaf ers ei sefydlu er bod cyrhaeddiad ym Mlynyddoedd 3 a 6 ar ei uchaf.

Mae'r tueddiadau hyn yn codi cwestiynau hollbwysig ynghylch dilyniant a gweithredu'r cwricwlwm. Mae mewnwelediadau cynnar Estyn i'w adroddiad blynyddol ar gyfer 2024/25 yn atgyfnerthu'r pryder hwn, gan nodi bod "cynllunio ar gyfer datblygiad graddol llythrennedd, rhifedd a medrau digidol

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, 'Cyngor Abertawe' (Saesneg yn unig), Ebrill 2025

¹² Llywodraeth Cymru, 'Papur Tystiolaeth Gwella Ysgolion a Chyrhaeddiad Dysgwyr', Tachwedd 2025



disgyblion yn parhau i fod heb ei ddatblygu'n ddigonol yn y mwyafrif o ysgolion"¹³ ac er bod ysgolion cynradd yn gadarnhaol ar y cyfan, gydag ychydig sydd angen gwaith dilynol, mae ysgolion uwchradd yn wynebu heriau sylweddol. Mae Estyn yn nodi ymhellach mewn "dwy ran o dair o ysgolion, mae diffygion mewn agweddau ar addysgu" ac "n[a]d yw'r arweinyddiaeth yn ddigon effeithiol wrth sicrhau addysgu cyson o ansawdd da", gyda 13 y cant o ysgolion uwchradd yn un o'r ddau gategori statudol.¹⁴

Mae hyn yn awgrymu, er bod dysgwyr iau yn elwa o ymyriadau wedi'u targedu, y gallai fod angen cymorth mwy dwys ar garfannau hŷn i bontio bylchau sydd wedi'u gwaethygu gan y pandemig. Mae'n bwysig nodi y byddai carfan Blwyddyn 9 2023/24 wedi bod ym Mlwyddyn 5 yn ystod 2019/20 a Blwyddyn 6 yn ystod 2020/21 - y blynyddoedd pandemig pan oedd aflonyddwch dysgu yn arbennig o arwyddocaol, a gall egluro pam mae patrymau adferiad yn wahanol ar draws grwpiau oedran.

Data

Mae tystiolaeth gan awdurdodau lleol a chyrrff cenedlaethol yn tynnu sylw at bryderon sylweddol ynghylch y dirwedd data bresennol ar gyfer canlyniadau addysgol yng Nghymru. O dan y Cwricwlwm i Gymru, mae ysgolion yn dyfeisio eu systemau olrhain eu hunain ac "mae sicrhau trosolwg cywir o gyflawniad pob disgybl yn her i'r awdurdod lleol oherwydd y diffyg gwybodaeth safonol sydd ar gael. Mae modd i hyn gael effaith ar gynllunio gwelliannau a blaenoriaethu adnoddau mewn modd effeithiol".¹⁵ At hynny, gall hyblygrwydd o fewn y Cwricwlwm i Gymru arwain at amrywiad mewn profiadau a chanlyniadau dysgu¹⁶, rhywbeth y rhybuddiodd y Pwyllgor blaenorol ohono yn 2020.

Mae rhanddeiliaid yn cytuno bod dangosyddion yn dibynnu "gormod ar fesurau Cyfnod Allweddol 4, a'r ffaith nad ydynt yn cofnodi cynnydd plentyn yn ddigonol ar draws gyrfa ysgol", gan alw am "[d]ilyniant clir, fesul cam, wedi'u halinio â'r Cwricwlwm i Gymru"¹⁷. Mae Cyngor Abertawe yn adleisio hyn, gan nodi nad oes darlun gwirioneddol o gyrhaeddiad diwedd addysg orfodol wedi bod ar gael yn ystod y pum mlynedd academaidd diwethaf. Dywed ei bod wedi bod yn anodd gwneud cymariaethau defnyddiol rhwng blynyddoedd, dros amser a rhwng ysgolion tebyg o'r un safon.¹⁸

Nodwn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn gynnar y llynedd ar Fframwaith yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 i gefnogi adrodd yn erbyn yr hawl honno fel y nodir yn y canllawiau statudol ar y cwricwlwm i bobl ifanc 14 i 16 oed. Rydym yn croesawu cynigion Llywodraeth Cymru i symud i ffwrdd o ddangosyddion pwysig, gan fod y newid hwn yn galluogi ysgolion i ganolbwyntio ar gynnydd a chanlyniadau dysgwyr

¹³ Estyn, Mewnwelediadau cynnar o Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ar gyfer 2024–25, Ysgolion Uwchradd, Hydref 2025

¹⁴ Gwybodaeth a ddarparwyd ar gais Estyn i Ymchwiliad y Senedd, Rhagfyr 2025

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, 'Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf', Ebrill 2025

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant (Saesneg yn unig), Ebrill 2025

¹⁷ Senedd Cymru, 'Gwella Ysgolion a Chyrhaeddiad Dysgwyr: Nodyn ar y Digwyddiad Bord Gron i Rhanddeiliaid', Medi 2025

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, 'Cyngor Abertawe' (Saesneg yn unig), Ebrill 2025

unigol yn hytrach na metrigau sy'n cael eu gyrru gan berfformiad. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru ac yn cefnogi diwylliant o welliant parhaus yn hytrach na chydymffurfio.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth gan awdurdodau lleol a rhanddeiliaid yn tynnu sylw at y risg o ddarnio ac anghysondeb yn absenoldeb disgwyliadau cenedlaethol clir. Bydd datblygu mesurau perfformiad newydd, a ddisgwylir eu cyflwyno yn haf 2027 i gyd-fynd â'r garfan gyntaf yn cwblhau Blwyddyn 11 o dan y Cwricwlwm i Gymru, yn garreg filltir bwysig.

Argymhelliad 3: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi dull dilyniant graddol sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, gyda disgwyliadau clir sy'n gysylltiedig ag oedran i sicrhau bod modd adnabod dysgwyr sydd angen ymyrraeth yn gynharach, ochr yn ochr â safonau cenedlaethol ar gyfer llythrennedd a rhifedd ac isafswm data cryno y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer y daith 3-16 oed.

Argymhelliad 4: Rydym yn argymell ymhellach fod ein pwyllgor olynol yn monitro ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gymryd rhan yn PIRLS (2026) a TIMSS (2027) ac yn sicrhau bod canfyddiadau o'r astudiaethau hyn yn llywio ymyriadau wedi'u targedu mewn llythrennedd a rhifedd o'r blynyddoedd cynnar ymlaen.

Cais 2: At hynny, dylai Llywodraeth Cymru barhau i fod yn wiliadwrus wrth fonitro tueddiadau mewn canlyniadau dysgwyr, fel y rhai sy'n amlwg o ddata asesu personol, a dylai ein pwyllgor olynol flaenoriaethu gwaith craffu i sicrhau adferiad a gwelliant parhaus ar draws pob maes.

Cais 3: Yn olaf, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu adnoddau data rhyngweithiol sy'n hawdd eu defnyddio ac sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru ac sy'n integreiddio â systemau presennol awdurdodau lleol, er mwyn cefnogi'r gwaith o gynllunio prosesau gwella ysgolion yn effeithiol, nodi risg yn gynnar, ac ymyriadau wedi'u targedu.

Defnyddio ffoneg a chiwio

Mae newidiadau diweddar i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru wedi egluro bod rhaid i addysgu ffoneg mewn modd systematig a chyson fod yn rhan allweddol o ddull ysgolion o ddarllen, a bod lluniau/ciwiau yn cefnogi dealltwriaeth o frawddegau, nid datgodio geiriau unigol.

Rydym wedi dilyn y ddadl ynghylch y dull gorau o addysgu plant i ddarllen. Nodwn eich bod wedi dweud wrthym ar 6 Tachwedd bod ffoneg synthetig systematig yn rhan gwbl allweddol o addysgu plant sut i ddarllen ond y dylid ei defnyddio gydag ystod o ddulliau ychwanegol o ddatblygu sgiliau llythrennedd ehangach, gan gynnwys rhuglder, geirfa, dealltwriaeth, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sydd ag ADY. Rydym hefyd yn nodi'r newidiadau a wnaed i'r canllawiau ar Faes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ddiwedd 2024/dechrau 2025.



Byddwch yn ymwybodol o ohebiaeth ddiweddar rhwng y Pwyllgor ac Elizabeth Nonweiler, cyn-aelod o Banel Llythrennedd Arbenigol Llywodraeth Cymru. Rydym yn parhau i fod yn bryderus ynghylch y diffyg eglurder parhaus o ran dull Llywodraeth Cymru o wella addysgu llythrennedd yng Nghymru. Yn benodol, mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi datgan bod CAL:ON Cymru yn defnyddio gwaith y Panel Llythrennedd Arbenigol, a bydd yn sicrhau bod disgwyliadau ar gyfer llythrennedd yn adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf ar sut mae plant yn dysgu darllen; fodd bynnag, ymddengys bod y sicrwydd hwn yn groes i'r materion a godwyd yn yr ohebiaeth a ddaeth i law. Mae'r anghysondeb hwn yn codi pryderon ynghylch y rhesymeg dros, a chyfeiriad, y penderfyniad i ddyrannu cyllid ar gyfer sefydlu CAL:ON Cymru.

Rydym yn bwriadu ailystyried y mater hwn fel rhan o'n sesiwn graffu gyffredinol gyda chi ar 4 Chwefror 2026, ac edrychwn ymlaen at glywed mwy am y cyngor a gawsoch gan y Panel Llythrennedd Arbenigol.

Bwlch cyrhaeddiad

Er y diwygiadau polisi a buddsoddiad sylweddol, anfantais gymdeithasol-economaidd yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol sy'n gyrru'r bwlch cyrhaeddiad rhwng grwpiau o ddysgwyr yng Nghymru. Er bod cyrhaeddiad cyffredinol yng Nghymru wedi gwella ychydig yn 2024/25 o'i gymharu â 2023/24; mae bylchau cyrhaeddiad wedi ehangu dros yr un cyfnod, tra bod bylchau ecwiti, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â thlodi ac anghenion ychwanegol, yn parhau i fod yn fwy nag yr oeddent cyn y pandemig a chyn belled yn ôl â 2015/16.

Mae'r rhai sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn perfformio'n gyson islaw eu cyfoedion ar draws bron pob mesur. Mae dadansoddiad o ganlyniadau TGAU yn dangos bod y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion ar raddau A*-C wedi ehangu i 29.3 pwynt canran yn 2024/25, o'i gymharu â 24.9 yn 2015/16 a 28.1 yn 2018/19. Ar raddau A*-A, mae'r bwlch yn parhau ar oddeutu 15 pwynt canran.¹⁹ Mae hyn er gwaethaf buddsoddiad sylweddol drwy'r Grant Datblygu Disgyblion, sy'n dyrannu £128 miliwn yn flynyddol i gefnogi dysgwyr dan anfantais.

Er bod cymhwysedd am brydau ysgol am ddim wedi cael ei ddefnyddio ers tro fel y prif fesur o anfantais economaidd-gymdeithasol, mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch ei ddibynadwyedd. Mae CLILC/CCAC yn nodi mai "un o ganlyniadau anfwriadol cyflwyno'r ddarpariaeth Prydau Ysgol Am Ddim i Bob Disgybl [Cynradd] yn llwyddiannus yw bod data amddifadedd ac eFSM wedi'i gamliwio fel procsi dibynadwy ar gyfer mesur tlodi plant"²⁰.

¹⁹ Llywodraeth Cymru, 'Papur Tystiolaeth Gwella Ysgolion a Chyrhaeddiad Dysgwyr', Tachwedd 2025

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, 'Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru', Mai 2025



Nid yw pob teulu mewn angen yn cofrestru ar gyfer grantiau na budd-daliadau, gan ei gwneud hi'n fwy anodd targedu cymorth yn gywir. Mae hyn yn golygu y gallai rhai dysgwyr sy'n agored i niwed gael eu hanwybyddu mewn ymyriadau sy'n seiliedig ar ddata, ac efallai na fydd dyraniadau cyllid yn adlewyrchu realiti lleol yn llawn. Fel y dywedodd un awdurdod lleol, "Mae teuluoedd sy'n byw mewn tlodi ac sydd ddim yn cyflwyno cais am Brydau Ysgol am Ddim yn cael effaith niweidiol ar deuluoedd a chyllid ysgolion".²¹

Felly, rydym yn croesawu adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Grant Datblygu Disgyblion a gyhoeddwyd ym mis **Rhagfyr 2025** fel cyfle amserol i ystyried ei rôl a'i ddyluniad yn y dyfodol, gan sicrhau bod cyllid at y diben hwn yn parhau i leihau anghydraddoldebau addysgol a diwallu anghenion esblygol dysgwyr. Nodwn eich bod wedi dweud eich bod yn 'wirioneddol rhwystredig' ynghylch lefel y cynnydd a fu dros nifer o flynyddoedd o ran lleihau'r bwlch cyrhaeddiad.

Rydym hefyd yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud i ystyried sut mae anfantais gymdeithasol-economaidd yn cael ei mesur a'r **prosiect ymchwil 'Prydau ysgol am ddim (eFSM) a mwy'**, y gwnaethoch ddarparu gwybodaeth amdano yn eich llythyr dyddiedig 26 Tachwedd 2025, ac **adroddiad** a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2025.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod bylchau cyrhaeddiad sy'n effeithio ar grwpiau penodol eraill, er enghraifft y rhai sydd ag ADY, rhai grwpiau ethnig lleiafrifol, a Phlant sy'n Derbyn Gofal. Nid ydym wedi gallu ystyried y rhain yn benodol yn y darn byr hwn o waith.

Argymhelliad 5: Rydym yn rhannu rhwystredigaeth yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch y diffyg cynnydd ac yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i roi blaenoriaeth uchel i ymdrin â'r gydberthynas negyddol rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad.

Argymhelliad 6: Rydym hefyd yn argymhell bod adolygiad y Grant Datblygu Disgyblion yn blaenoriaethu effaith amlwg ar leihau bylchau cyrhaeddiad, nid dim ond gwella mynediad at gyllid, ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu lle gallant wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Presenoldeb ac ymddygiad

Mae presenoldeb yn rhagofyniad sylfaenol ar gyfer cyflawniad. Mae presenoldeb gwael a chyfraddau gwahardd uchel yn cael effaith andwyol ar gynnydd dysgwyr.

Gwanethom ymgymryd ag **ymchwiliad i absenoldeb disgyblion yn 2022**, yn dilyn pryderon a fynegwyd yn ystod gwaith craffu blynyddol Estyn ym mis Rhagfyr 2021 ynghylch effaith absenoldeb ar ddysgu a llesiant cyffredinol plant a phobl ifanc. Amlygwyd drwy'r ymchwiliad hwn, fod **gan bawb rôl**

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, 'Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf', Ebrill 2025



i'w chwarae wrth hyrwyddo a chefnogi presenoldeb cynaliadwy, a dyna pam y gwnaethom argymhell bod: *Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch genedlaethol yn canolbwyntio ar effeithiau cadarnhaol presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol.*

Er nad yw'r Llywodraeth wedi lansio ymgyrch genedlaethol, nodwn fod ei hymateb i'r argymhelliad yn adlewyrchu adborth gan ddysgwyr a thystiolaeth ehangach sy'n dangos bod negeseuon cenedlaethol generig yn llai effeithiol na chyfathrebu lleol, wedi'i deilwra. Mae'r ymgysylltiad hwn hefyd wedi tynnu sylw at rôl hanfodol ysgolion, yn enwedig staff bugeiliol a staff ymgysylltu â theuluoedd, wrth ail-ymgysylltu â dysgwyr a chefnogi teuluoedd, sy'n cyd-fynd â thystiolaeth rydym wedi'i chasglu fel rhan o'r ymchwiliad cyfredol hwn.

Serch hynny, dywedodd rhanddeiliaid wrthym y gallai negeseuon ar lefel genedlaethol, wedi'u halinio â gwaith lleol ac yn yr ysgol, gryfhau dealltwriaeth o bwysigrwydd presenoldeb a chefnogi ymdrechion i leihau absenoldeb parhaus.

Mae awdurdodau lleol yn adrodd bod disgyblion sydd â lefelau uwch o absenoldeb yn fwy tebygol o ddangos llai o ymgysylltiad pan fyddant yn yr ysgol. Maent hefyd yn pwysleisio bod buddsoddi mewn strategaethau i hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol yn hanfodol ar gyfer gwella presenoldeb, canlyniadau dysgwyr a chyrhaeddiad.²²

Mae maint yr her yn glir: mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn parhau i fod islaw'r lefelau cyn y pandemig, ac mae absenoldeb parhaus (10 y cant neu uwch), er ei fod wedi gostwng i 33.0 y cant yn 2024/25, yn dal i fod bron ddwywaith y 17.1 y cant a gofnodwyd yn 2018/19.²³

Mae awdurdodau lleol yn pwysleisio bod "presenoldeb yn fater critigol, gyda chyfraddau absenoldeb uwch ymysg disgyblion difreintiedig".²⁴ Mae'r pryder hwn yn cael ei adlewyrchu yn y bwlch amddifadedd: Yn 2024/25, mynychodd disgyblion uwchradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim 81.2 y cant o sesiynau o'i gymharu â 91.1 y cant ymhlith y rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim²⁵, gydag absenoldeb parhaus ar 58.0 y cant o'i gymharu â 26.8 y cant yn y drefn honno.²⁶

Fodd bynnag, nododd CLILC/CCAC nad yw heriau presenoldeb yn cael eu gyrru gan ysgolion yn unig; "Mae sawl newid cymdeithasol a diwylliannol wedi cael effaith negyddol ar bresenoldeb, sydd

²² Tystiolaeth ysgrifenedig, 'Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru', Mai 2025

²³ Llywodraeth Cymru, 'Papur Tystiolaeth Gwella Ysgolion a Chyrhaeddiad Dysgwyr', Tachwedd 2025

²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, 'Cyngor Ynys Môn', Mai 2025

²⁵ Llywodraeth Cymru, 'Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir: 2 Medi 2025 i 2 Ionawr 2026', Tabl 4, 13 Ionawr 2026 (y diweddaraf sydd ar gael ar adeg ysgrifennu)

²⁶ Llywodraeth Cymru, 'Presenoldeb ac absenoldeb o ysgolion uwchradd: Medi 2024 i Awst 2025', Tabl 11.

wedi cael ei waethygu gan y pandemig", gan gynnwys disgwyliadau rhieni a materion o ran trafnidiaeth²⁷.

Rydym wedi clywed bod ymddygiad yn aml yn gysylltiedig â ffactorau ehangach fel iechyd meddwl a llesiant, anghenion dysgu ychwanegol, cynhwysiant, tlodi, anfantais ac anghydraddoldeb, sy'n golygu bod dulliau cosbol yn unig yn aneffeithiol. Atgyfnerthir y farn hon gan adroddiad Pwyllgor Trosedd ac Ymddygiad Senedd Ieuenctid Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a oedd yn tynnu ar brofiadau dros 2,000 o bobl ifanc. Rydym yn croesawu'n fawr bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi derbyn pob un o'r wyth argymhelliad, ac yn rhannu ei barn bod yr adroddiad hwn yn cynrychioli enghraifft ragorol o lais y disgybl.

Nodwn fod cyfraddau gwahardd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Er enghraifft, mae gwaharddiadau tymor penodol o bum diwrnod neu lai bron wedi dyblu o 75 i 144 fesul 1,000 o ddisgyblion ysgol uwchradd rhwng 2018/19 a 2023/24.

Fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Recriwtio a Chadw Athrawon a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi llawer o bwyslais ar ei Huwchgynhadledd Ymddygiad Genedlaethol a gynhaliwyd ym mis Mai 2025, fodd bynnag rydym yn parhau i fod braidd yn bryderus ynghylch y diffyg gweithredu pendant sy'n deillio o'r Uwchgynhadledd hon ar fater arwyddocaol a brys. Edrychwn ymlaen at gael ymateb y Llywodraeth i'n hadroddiad, yn benodol ynghylch yr argymhelliad i gyhoeddi canllawiau clir a chydlynol ar reoli ymddygiad.

Cais 4: Rydym yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i barhau i hyrwyddo presenoldeb yn genedlaethol ac i ddarparu cefnogaeth sydd wedi'i thargedu'n well i ysgolion ac awdurdodau lleol, ac yn gofyn i'r Llywodraeth amlinellu sut y mae'n bwriadu asesu a yw negeseuon cenedlaethol yn cefnogi ymwybyddiaeth, yn cryfhau ymyriadau lleol, ac yn y pen draw a yw'r dull yn gweithio.

Argymhelliad 7: Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymchwilio i'r hyn sydd wrth wraidd y ffaith bod nifer y gwaharddiadau byrdymor penodol ar gyfer disgyblion uwchradd wedi bron dyblu ers cyn y pandemig ac ystyried a yw hyn yn briodol ac yn gyfiawn.

Argymhelliad 8: Ochr yn ochr â hyn i gyd, rydym yn annog buddsoddiad mewn strwythurau cymorth amlasiantaeth sy'n dwyn ynghyd addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu cymorth cydlynol ar gyfer iechyd meddwl, diogelu a heriau ymddygiad.

Capasiti'r gweithlu

Mae sicrhau digon o gapasiti gweithlu a chynnal profiadau dysgu o ansawdd uchel yng Nghymru yn cael eu herio fwyfwy gan y ffactorau cymhleth sy'n llunio recriwtio a chadw athrawon, fel yr

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, 'Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru', Mai 2025



amlinellwyd yn ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet i ddatblygu Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg, yn gobeithio y bydd yr argymhellion sy'n ymwneud â hyn yn yr adroddiad recriwtio a chadw athrawon yn cael eu derbyn ac yn edrych ymlaen at weld sut mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

Mae CLILC/CCAC a sawl awdurdod lleol yn adrodd bod heriau cynyddol o ran ymddygiad a chymhlethdod cynyddol o ran anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion iechyd meddwl yn mynnu llawer o amser staff, gan dynnu sylw oddi wrth addysgu a dysgu. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Abertawe yn tynnu sylw at y ffaith bod pwysau ymddygiadol a llesiant parhaus yn gofyn am waith ymyrraeth gynnar sylweddol, tra bod Cyngor Ynys Môn wedi nodi bod ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn hanfodol i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed – ond mae hyn hefyd yn gofyn am amser, hyfforddiant a staff nad ydynt ar gael mewn ysgolion.

Pwysleisiodd rhanddeiliaid yn y drafodaeth bord gron ymhellach fod ysgolion yn amsugno materion cymdeithasol ehangach yn absenoldeb cyfrifoldebau amlasiantaeth clir, gan gyfyngu ar eu gallu i flaenoriaethu addysgu a dysgu craidd. Ar yr un pryd, mae cyfyngiadau cyllido (a drafodir yn fanylach yn yr adran nesaf) yn arwain at ostyngiadau mewn rolau bugeiliol a phresenoldeb sy'n hanfodol i sicrhau bod gan ddisgyblion ddiddordeb mewn dysgu.

Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth yn dangos, pan fydd capasiti gweithlu sydd eisoes yn gyfyngedig yn cael ei ddefnyddio fwyfwy i reoli ymddygiad, gwaith presenoldeb a chefnogaeth fugeiliol ddwys, fod llai o amser ar gael ar gyfer addysgu o ansawdd uchel, cefnogaeth wedi'i thargedu a datblygu'r cwricwlwm – gan rwystro gallu disgyblion i wneud cynnydd yn y pen draw.

Argymhelliad 9: Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi cadarnhad clir y bydd y cynnig dysgu proffesiynol gan Dysgu yn cynnwys ymarfer sy'n ystyriol o drawma, rheoli ymddygiad ac arweinyddiaeth.

Cyllido a blaenoriaethu addysg

Mae rhanddeiliaid yn sôn am hinsawdd ariannol heriol, gydag ysgolion yn lleihau rolau anstatudol ond hanfodol, ac awdurdodau lleol yn wynebu 'pwysau cost lluosog'. Rhybuddiodd cyfranogwyr y ford gron fod cyfyngiadau cyllido yn gorfodi penderfyniadau anodd, gan leihau'r capasiti sy'n cefnogi presenoldeb, llesiant a chyrhaeddiad yn aml.

Mae CLILC/CCAC yn dod i'r casgliad nad oes digon o gyllid i gefnogi'r holl nodau gwella ysgolion newydd, a heb gyllid ychwanegol, ei bod yn anodd meithrin capasiti ar gyfer y modelau newydd.

Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon yn gyson bod cyllid yn fater y bydd pob ysgol yn ei grybwyll fel maes sy'n peri pryder mawr, gydag anghydraddoldeb rhwng y cynnydd yn anghenion dysgwyr a'r disgwyliad i ysgolion wella eu cwricwlwm yn erbyn sefyllfa fflat o doriadau/arian parod mewn

cyllidebau²⁸. Nododd eraill fod “telerau ac amodau'r cyllid grant yn gallu bod yn fiwrocrataidd a chyfyngol o hyd, a dydyn nhw ddim yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol bob tro”²⁹, tra bod CLILC/CCAC yn rhybuddio bod “arbedion effeithlonrwydd [yn] effeithio ar gyflawniad ac yn cyfyngu ar allu awdurdodau lleol ac ysgolion i gynllunio buddsoddiadau hirdymor.”³⁰

Gwnaethom ofyn ichi yn ystod ein sesiwn ar 6 Tachwedd, yn ogystal ag yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb ar 27 Tachwedd am bedwar blaenoriaeth y Prif Weinidog a'r ffaith iddi ddiwygio'r rhai a osododd ar ôl dod i'r swydd yn ystod haf 2025. Er mwyn osgoi amheuaeth, roeddem yn cyfeirio at y newid yn y flaenoriaeth a osodwyd ym mis Medi 2024, a oedd yn darllen *Cyfle i bob teulu – hybu safonau mewn ysgolion a cholegau a darparu rhagor o gartrefi ar gyfer y sector rhent cymdeithasol, gan sicrhau bod pob teulu yn cael cyfle i lwyddo*. Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf 2025 ei bod yn 'symleiddio' ei blaenoriaethau ac o haf 2025, mae'r flaenoriaeth hon bellach yn darllen “Mwy o Gartrefi”.

Fe wnaethoch gyfeirio at eich blaenoriaethau addysg eich hun ac ymddengys eich bod yn awgrymu eich bod yn credu bod codi safonau addysg yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau'r Prif Weinidog, gan gyfeirio at y flaenoriaeth ymbarél 'Cyfle i bob teulu' sydd bellach wedi'i disodli.³¹ Holodd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog y Prif Weinidog am hyn ar 12 Rhagfyr, a chadarnhaodd fod addysg yn 'hollol hanfodol ac yn flaenoriaeth iddi³². Fodd bynnag, nid yw'n un o'r pedwar prif flaenoriaeth yr oedd eisiau i bobl ei mesur arno yn ei dwy flynedd fel Prif Weinidog yn y tymor Senedd hwn ac nad oedd wedi codi llawer yn ei hymarfer gwrandio gyda'r cyhoedd (a lywiodd ei blaenoriaethau).

Cais 5: Byddem yn ddiolchgar am eich sylwadau ar faint o flaenoriaeth sydd i godi safonau addysg o fewn Llywodraeth Cymru ar lefel y Cabinet, yn hytrach nag o fewn eich adran a'ch ffocws eich hun yn unig. At hynny, sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu gan benderfyniadau a wneir gan y Prif Weinidog, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg a Chabinet Llywodraeth Cymru ynghylch dyrannu cyllid (gyda chyfeiriad at ddyrannu symiau canlyniadol Barnett sy'n gysylltiedig ag addysg, fel y trafodwyd yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2026-27).

I gloi, hoffem ailadrodd y themâu canolog sy'n deillio o'r dystiolaeth a gasglwyd drwy gydol y gwaith hwn: yr angen am fwy o eglurder a chysondeb ynghylch trefniadau gwella ysgolion; camau brys i gefnogi cynnydd dysgwyr ac ymdrin â bylchau cyrhaeddiad sy'n ehangu; dulliau cryfach o ran

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, 'Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (Saesneg yn unig)', Mai 2025

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, 'Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf', Ebrill 2025

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, 'Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru', Mai 2025

³¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 10

³² Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, 12 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 12 a 15



presenoldeb ac ymddygiad; a strategaeth gynaliadwy i sicrhau digon o gapasiti gweithlu ar draws pob cyfnod addysg.

Rydym hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd blaenoriaethu addysg mewn modd tryloyw ar lefel y Llywodraeth, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniadau ariannu a chyflawni disgwyliadau cenedlaethol. Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb i'r ceisiadau a nodir yn y llythyr hwn erbyn ****** Mawrth 2026, fel y gall lywio ein gwaith craffu parhaus, a gwaith ein pwyllgor olynol.

Yn gywir



Buffy Williams AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 3.3

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

Welsh Parliament Cardiff

Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lynne Neagle AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

3 Chwefror 2026

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4): Y Bil Lles Plant ac Ysgolion

Ar ôl ei osod ar 16 Ionawr 2026, roeddem yn mynd i ystyried ein hadroddiad ar y Memorandwm uchod ddoe yn barod ar gyfer dadl a drefnwyd ar gyfer heddiw ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol.

Rydym yn deall bod y ddadl wedi'i gohirio tan 3 Mawrth 2026 a bod memorandwm cydsyniad atodol arall ar y gweill. O ganlyniad, diben y llythyr hwn yw ceisio eglurhad ar nifer o faterion sy'n codi o Femorandwm Rhif 4; ein bwriad gwreiddiol oedd ceisio'r eglurhad hwnnw drwy argymhellion, yr ydym yn gobeithio y byddech wedi mynd i'r afael â nhw yn y ddadl. Mae'r eglurhad yr hoffem ei gael fel a ganlyn:

1. A allwch chi gadarnhau os gwelwch yn dda a yw'r gwelliant y cyfeirir ato ym mharagraff 24 o Femorandwm Rhif 4 bellach wedi'i gyflwyno ac a fydd yn cael ei gynnwys yn y memorandwm cydsyniad atodol ychwanegol fel y disgwylir?
2. Mae Memorandwm Rhif 4 yn cyfeirio at bŵer gwneud rheoliadau mewn gwelliannau i gymal 32, sy'n ymwneud â'r amcangyfrif o amser y mae plentyn yn cael addysg gan rieni neu ddarparwyr eraill. Nid yw'n glir ym Memorandwm Rhif 4 a yw hwn yn bŵer newydd i wneud rheoliadau na pha weithdrefn graffu'r Senedd fydd yn cael ei chymhwyso i reoliadau o'r fath.

A allwch chi gadarnhau'r weithdrefn graffu a fydd yn gymwys i wneud rheoliadau o dan gymal 32 o'r Bil os derbynnir y gwelliannau i'r cymal hwnnw yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi?



3. Mae gwelliant 244 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ganlyniadol (cymal newydd a gynigir ar ôl cymal 64). Nodwn fod y gwelliant hwn yn mynd i'r afael ag argymhelliad 4 yn ein hadroddiad cyntaf. Fodd bynnag, nid oes sôn ym Memorandwm Rhif 4 am weithdrefn graffu'r Senedd sydd i'w chymhwyso i'r rheoliadau hynny. Mae'n ymddangos i'r Pwyllgor mai gweithdrefn annilysu'r Senedd fydd yn cael ei chymhwyso, oni bai bod y rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Yn yr achos hwnnw, gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd fydd yn cael ei chymhwyso.

A allwch chi gadarnhau'r weithdrefn graffu a fydd yn gymwys i wneud rheoliadau o dan y cymal newydd sydd i'w fewnosod ar ôl cymal 64 drwy welliant 244, os bydd yn cael ei dderbyn yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi?

4. A fydddech cystal â chadarnhau:
- pa welliannau ym Memorandwm Rhif 4 sydd wedi'u trafod yn Nhŷ'r Arglwyddi a chanlyniad y drafodaeth honno;
 - pa welliannau ym Memorandwm Rhif 4 sydd heb eu trafod a phryd rydych chi'n disgwyl i hynny ddigwydd;
 - mewn perthynas â phwynt bwled (b), os oes gwelliannau sydd heb eu trafod, beth mae hyn yn ei olygu o ran y cydsyniad sy'n cael ei geisio ar eu cyfer drwy Femorandwm Rhif 4?
5. Mewn perthynas ag unrhyw welliannau i'r Bil sydd i fod yn destun pumed memorandwm, a allwch chi sicrhau bod y memorandwm hwnnw yn nodi a fydd gwelliannau o'r fath wedi cael eu trafod cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad ar 3 Mawrth 2026? Os na fyddant, a allwch chi egluro beth mae hyn yn ei olygu o ran ceisio cydsyniad y Senedd ar eu cyfer?

A fydddech cystal ag ymateb i'r cwestiynau hyn erbyn dydd Iau 19 Chwefror 2026?

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Buffy Williams AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir,



Mike Hedges
Cadeirydd

Eitem 3.4



7 Coopers Yard, Curran Road, Cardiff
CF10 5NB

7 Iard y Cowper, Ffordd Curran,
Caerdydd
CF10 5NB

+44 (0)29 2037 0900
enquiries@learningandwork.org.uk
www.learningandwork.wales
www.sefydliaddysguagwaith.cymru

Dear Ms Williams,

A Work, Health and Skills Plan for Wales – Boosting employment opportunities for 60,000 people and tackling economic inactivity.

On behalf of [Learning and Work Institute](http://www.learningandwork.wales) (L&W), I am writing to share our recent report [A Work, Health and Skills Plan for Wales](http://www.learningandwork.wales), which I hope will be of immediate interest to you and the work of the Children, Young People and Education Committee. I appreciate this Senedd term will shortly come to an end, but I hope the Committee support service and Members' Research Service may also find it helpful for work in the next Senedd.

With the imminent devolution of employment support, the report sets out how the Welsh Government can immediately utilise its devolved powers to increase employment in Wales, deliver a potential £1.4 billion economic boost for Wales, and save taxpayers up to £500 million per year.

Background to the research

L&W is an independent policy, research and development organisation dedicated to lifelong learning, full employment and inclusion. Our vision is for a fair and prosperous society where learning and work enable everyone to realise their potential.

Through our work in Wales, we conduct high-level research to provide a robust evidence base for policy development. For example, our analysis of youth participation underscores a concerning national trend. Of the nearly one million young people aged 16 to 24 across the UK who are not in education, employment, or training (NEET), our findings reveal that in Wales, approximately seven in ten (69%) are economically inactive - meaning they are currently neither seeking nor available for work.

This report arrives at a pivotal moment. With the commitment from the UK Government to devolve non-Jobcentre Plus support, the Welsh Government will have greater control over impactful employment policies that can reduce economic inactivity and support economic growth. The report sets out timely analysis to create a richer understanding of the groups most impacted by labour market inequalities and suggests clear, implementable policy recommendations for a more inclusive Welsh labour market.

The labour market realities our analysis reveals

Our analysis provides definitive evidence that the persistent employment gap between Wales and the rest of the UK is a major economic constraint.

Learning and Work Institute

Patron: HRH The Princess Royal | Chief Executive: Stephen Evans
Director for Wales: Michelle Matheron
A company limited by guarantee, registered in England and Wales
Registration No. 2603322 Registered Charity No. 1002775

Sefydliad Dysgu a Gwaith

Noddwr: Ei Huchelder Y Dywysoges Frenhinol | Prif weithredwr: Stephen Evans
Cyfarwyddwr Cymru: Michelle Matheron
Cwmni cyfyngedig trwy warrant a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru
Rhif cofrestru 2063322 Rhif cofrestru elusen 1002775

Tudalen y pecyn 50



Wales experiences higher rates of economic inactivity (15.8%) compared to England (14.2%). The primary driver of this disparity is disability and poor health, accounting for 6.9% of the working-age population's inactivity.

Employment opportunities and outcomes also differ greatly based on where someone lives. Mid-Wales, for example, sees the biggest employment gaps for disabled people and one in eight working age people in Blaenau Gwent are receiving Universal Credit health, this is double the proportion in Gwynedd.

These challenges are often exacerbated by a lack of skills: among people who are economically inactive due to poor health, 42% have no qualifications, a rate three times higher than the wider population.

Collectively, these barriers to employment compound inequalities affecting disabled people, those with long-term health conditions, women, and ethnic minority groups.

Report proposals

The report proposes a bold, long-term 10-year strategy to close this employment gap between Wales and the UK by raising the current 73% employment rate to a minimum of 75% of working-age adults. Achieving this increase (an extra 60,000 people in work) is projected to deliver a potential £1.4 billion economic boost for Wales and save taxpayers up to £500 million per year.

As part of our recommendations, the plan calls for specific actions for the Welsh Government to:

1. **Establish a 10-year Work, Health and Skills plan**, led jointly by the Welsh Government's Health, Economy and Education departments.
2. **Develop a new, single Employment Support Network for Wales** to join up health, skills, and employment support effectively.
3. **Invest £180 million in additional annual funding** to resource this critical intervention and support the transition of those 60,000 people into work.

Further recommendations can be found [in our report](#).

With the imminent devolution of employment support, we are keen to work with the Welsh Government to utilise its devolved powers to implement this comprehensive plan to shape the future policy landscape in Wales.

An invitation to meet

I would also welcome the opportunity to meet with you to discuss our research and the wider work of Learning and Work Institute in Wales.

My colleague Nisha Patel (nisha.patel@learningandwork.org.uk) would be happy to work with your office to find a suitable date.

Yours sincerely,



Michelle Matheron
Director for Wales, Learning and Work Institute

Eitem 3.5

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Children, Young People and Education Committee

Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru
Gillian Baranksi

9 Chwefror 2026

Sesiwn Graffu Cyffredinol – Gwaith dilynol ar ofal cymdeithasol plant

Annwyl Gillian,

Diolch i chi a Margaret am fod yn bresennol yn ein sesiwn graffu ar 28 Ionawr 2026. Rydym yn gwerthfawrogi eich amser a'ch ymgysylltiad â'r materion a godwyd.

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y Chwched Senedd, rydym wedi bod yn myfyrio ar yr amrywiaeth o bryderon difrifol a godwyd gyda ni am ofal cymdeithasol plant yng Nghymru. Byddwch yn gwybod fod y maes polisi hwn wedi bod yn destun llawer o'n gwaith craffu. Drwy gydol cyfnod y Senedd hon, rydym wedi edrych yn fanwl ar brofiadau plant sydd wedi bod mewn gofal, plant sy'n mynd ar goll a phlant y cam-fanteisir arnynt yn droseddol. Yn ychwanegol at ein gwaith craffu ein hunain, yn ystod y Senedd hon rydym hefyd wedi gweld rhagor o achosion ble nad yw gwasanaethau rheng flaen wedi diogelu plant nac wedi gwrando ar eu llais. Mae'r rhain yn cynnwys y methiannau a amlygwyd yn Adolygiad Ymarfer Plant Gwynedd.

Felly, rydym yn manteisio ar y cyfle hwn i ddilyn y materion yr edrychwyd arnynt yn ystod ein sesiwn ddiweddar, gan edrych yn benodol ar sut y gallwn sicrhau gwelliant ar draws y system. Rydym yn parhau'n gynyddol bryderus fod yr heriau y mae'r maes gofal cymdeithasol plant yng Nghymru yn eu hwynebu yn deillio o broblemau systemig ehangach, yn hytrach na diffygion ynysig mewn gwasanaethau unigol.

Felly, mae'r llythyr hwn yn canolbwyntio ar egluro sut mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn defnyddio ei safle, y wybodaeth a'r data sydd ganddi, a'i hawdurdod i gefnogi gwelliant ar draws y system gyfan yn unol â'i chylch gwaith. Rydym yn ceisio sicrwydd bod Arolygiaeth Gofal Cymru yn gwneud popeth o fewn ei chylch gwaith i gymryd golwg strategol ar ansawdd a diogelwch gofal cymdeithasol plant – gan gysylltu canfyddiadau gwaith arolygu â thueddiadau ehangach, nodi risgiau'n gynnar, a defnyddio ei llais i ysgogi newid. Mae adroddiadau a data arolygu yn bwysig, ond nid ydynt yn bwynt terfynol o angenrheidrwydd. Rydym am ddeall yn well ym mha ffyrdd y mae Arolygiaeth Gofal Cymru

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 52

yn cyfrannu at ddysgu ar draws y system, yn cryfhau atebolrwydd, ac yn sicrhau bod profiadau a llais plant yn llywio gwelliant.

Yn y cyd-destun hwnnw, byddem yn croesawu cael rhagor o eglurder ar y meysydd a ganlyn:

- **Rôl strategol Arolygiaeth Gofal Cymru o ran gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol:** Sut mae yr Arolygiaeth yn sicrhau bod ei harolygiadau ei hun a'i harolygiadau ar y cyd o awdurdodau lleol, ei hadolygiadau thematig a'i gwybodaeth yn gweithio i ffurfio darlun cydlynol o berfformiad systemau ledled Cymru? A oes mecanweithiau effeithiol ar waith er mwyn i Arolygiaeth Gofal Cymru adnabod patrymau, uwchgyfeirio pryderon i Lywodraeth Cymru a chefnogi'r gwelliant ar draws awdurdodau lleol?
- **Dysgu yn sgil arolygiadau:** Sut mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn sicrhau ei hun, a ninnau, bod materion mewn adroddiadau arolygu sy'n ymwneud â pherfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hamlygu'n gyflym i awdurdodau lleol eraill? Nodwn fod arolygiad ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn wedi'i gynnal yn dilyn adolygiad Gwynedd. Pa newidiadau, os o gwbl, fydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn eu gwneud i'w harolygiadau yn y dyfodol i sicrhau bod methiannau diwylliannol, arferion llywodraethu gwan neu ddiffyg cydymffurfio â phrosesau a chanllawiau diogelu sefydledig yn cael eu nodi bob amser mewn adroddiadau arolygu?
- **Llais y plentyn:** Sut mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn cryfhau ei dull ei hun o glywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc? Sut mae'r dull hwnnw'n profi a yw lleisiau plant yn wir yn dylanwadu ar ganlyniadau arolygiadau?
- **Bylchau o ran goruchwyliaeth a gwybodaeth:** Mae diffyg goruchwyliaeth benodol yng Nghymru mewn achosion Amddifadu o Ryddid sy'n berthnasol i blant, fel yr amlygwyd yn ein sesiwn ac fel y nodwyd yn ein gwaith craffu blaenorol. Pa rôl y mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn credu y dylai ei chael wrth geisio cau y bwlch hwn, a phwy ydych chi'n credu ddylai fod â chyfrifoldeb dros gynnal goruchwyliaeth o ran plant sy'n destun Amddifadu o Ryddid a'r plant hynny sy'n byw mewn lleoliadau nad ydynt wedi'u cofrestru?
- **Pwysau ariannol:** Rydym ni'n gwybod fod adroddiadau am ddarparwyr preifat llety plant mewn gofal yn dyblu costau eu lleoliadau yn ystod cyfnod gweithredu deddfwriaeth i gyfyngu ar elw. Pa mor bryderus yw Arolygiaeth Gofal Cymru am effaith hyn ar gyllidebau awdurdodau lleol, ac yn ei dro, ar ddarpariaeth a sefydlogrwydd gwasanaethau cymdeithasol plant yn y tymor byr i'r tymor canolig?

- **Edrych tua'r dyfodol:** Beth yw'r neges bwysicaf yr hoffech chi ei chyfleu i Lywodraeth nesaf Cymru am yr heriau sy'n wynebu Arolygiaeth Gofal Cymru, a'i gwaith wrth geisio sicrhau darpariaeth gwasanaethau o ansawdd i blant a phobl ifanc?

Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch hefyd gytuno i ddarparu rhagor o wybodaeth am ddau fater:

1. Pa mor helaeth y mae arolygwyr Arolygiaeth Gofal Cymru yn siarad yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc sy'n byw mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, a sut mae hyn wedi newid dros amser.
2. Pryd oedd y tro diwethaf i Arolygiaeth Gofal Cymru arolygu Gwasanaethau Plant Gwynedd cyn yr adroddiad yn 2025, a beth oedd canfyddiadau'r arolygiad hwnnw?

Byddem yn croesawu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl, ac os yn bosibl erbyn 5 Mawrth 2026, er mwyn sicrhau y gallwn ystyried yr ymateb yn ein cyfarfod olaf yn nhymor y Senedd hon.

Diolch eto am eich ymgysylltiad â'n gwaith, ac am eich cyfraniad parhaus at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Yn gywir,



Buffy Williams AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Eitem 3.6

Dawn Bowden AS/MS
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/DB/0218/26

Buffy Williams MS
Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Mike Hedges MS
Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

10 Chwefror 2026

Annwyl Buffy a Mike,

Byddwch am fod yn ymwybodol fy mod heddiw wedi gosod 'Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2026'. Bydd yn dirymu ac yn disodli 'Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010'.

Diben y Gorchymyn yw disgrifio'r amgylchiadau lle nad yw'n ofynnol cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Pan fo darparwr wedi'i eithrio rhag gorfod cofrestru, nid oes rhaid iddo gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn [Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd \(Cymru\) 2010](#) na rhoi sylw i'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir](#) ac nid yw'n cael ei archwilio gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Hoffwn gynnig cyfle i'r Pwyllgorau gael briff technegol gan swyddogion ar weithrediad y Gorchymyn hwn. Pwrpas briff o'r fath fyddai helpu'r Aelodau i ddeall:

- sut y bwriedir i'r Gorchymyn weithredu yn ymarferol,
- effaith arfaethedig yr offeryn, a
- yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a sut y rhoddwyd sylw i'r ymatebion.

Os yw'r Pwyllgorau yn dymuno manteisio ar y cynnig hwn, gellir gwneud trefniadau drwy swyddogion Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant (LPGU), a fydd yn cysylltu'n uniongyrchol â'ch tîmau clericio i ddod o hyd i ddyddiad addas.

Mae croeso ichi gysylltu ag LPGU os oes angen rhagor o wybodaeth neu eglurder ar y Pwyllgor.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 56

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Dawn Bowden', written in a cursive style.

Dawn Bowden AS/MS

Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care

Eitem 3.7

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Children, Young People and Education Committee

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 656

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

11 Chwefror 2026

Gweithredu diwygiadau addysg

Annwyl Lynne

Diolch am roi tystiolaeth ym mis Hydref fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor: 'Gweithredu diwygiadau addysg'. Dyma oedd diwedd ein gwaith casglu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad dros gyfnod y Senedd. Mae'r llythyr hwn yn rhoi cyfle olaf inni rannu ein barn ar effeithiolrwydd gweithredu'r ddau ddarn allweddol hyn o ddeddfwriaeth addysg: Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021; a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Fe wnaethom ni fabwysiadu dull gwahanol o wneud y gwaith hwn, gan ei gadw'n ymchwiliad byw drwy gydol y Senedd. Golygodd hyn fod rhanddeiliaid wedi gallu ein diweddarau mewn amser real ar beth oedd yn gweithio'n dda a beth nad oedd yn gweithio. Credwn fod y dull ymatebol a hirdymor hwn yn addas iawn ar gyfer gwaith craffu ar weithredu polisi allweddol neu newid deddfwriaethol. Nodwedd allweddol o'r gwaith hwn oedd cyfnodau monitro rheolaidd a oedd fel arfer yn cynnwys ymweliadau ag ysgolion, ymgysylltu â dinasyddion a thystiolaeth lafar.

Yn dilyn pob cyfnod monitro, fe wnaethom nodi ein canfyddiadau, naill ai drwy ohebiaeth neu'r adroddiad diwethaf gennym sef yr adroddiad interim.¹ Mae'r ymchwiliad parhaus hwn hefyd wedi llywio darnau eraill o waith fel ein gwaith craffu ar y gyllideb a gwaith craffu blynyddol ar gyff fel

¹ Y cyfnod monitro cyntaf: Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Diwygiadau addysg allweddol: sesiwn ryngweithio haf 2022, 8 Awst 2022. Yr ail gyfnod monitro: Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Gweithredu diwygiadau addysg: canlyniad ein harolwg 'gwiriad' haf 2023, 17 Gorffennaf 2023. Y trydydd cyfnod monitro: Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Gweithredu diwygiadau addysg: Adroddiad interim, Gorffennaf 2024.



Estyn, y Comisiynydd Plant a Chymwysterau Cymru ac yn arbennig, ein hymchwiliad: 'A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?'

Fel rhan o'r cyfnod monitro olaf hwn, aethom ar ymweliad ag ysgol, a chynhaliwyd y sesiwn tystiolaeth lafar gyda chi ar 23 Hydref 2025. Yn dilyn cyhoeddi'r Pecyn Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ym mis Tachwedd, fe wnaethom hefyd ddod â rhai aelodau o'n Grŵp Cyngori Ar-lein ynghyd i roi eu barn ar y Pecyn Cymorth.² Fe wnaethom ni hefyd drafod rhai o'r materion hyn yn ein sesiwn graffu cyffredinol gyda chi ar 4 Chwefror 2026.

Mae'r llythyr hwn yn nodi ein safbwyntiau terfynol, gan ganolbwyntio ar ddatblygiadau ers ein trydydd cyfnod monitro a'n hadroddiad ym mis Gorffennaf 2024.

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar sut y cafodd y Ddeddf hon ei gweithredu yn ystod y Senedd, nid yn unig yn ystod yr ymchwiliad hwn, ond mewn meysydd eraill o'n gwaith hefyd. Rydym wedi croesawu'r sylw a roddwyd ar fynd i'r afael â rhai o'r heriau o ran gweithredu'r Ddeddf. Credwn fod yr adolygiad diweddar yn gam cadarnhaol. Rydym yn gobeithio y bydd plant, pobl ifanc, teuluoedd a staff sy'n eu cefnogi yn cael budd o'r gwelliannau gwirioneddol a gweladwy sy'n deillio o effeithiau'r adolygiad. Nodwn eich pum maes gweithredu, y mae pob un yn cyd-fynd â'n canfyddiadau blaenorol. Rydym wedi crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- egluro pwy sydd ag ADY a sut y gall dysgwr ADY gael cymorth;
- sicrhau cysondeb cenedlaethol;
- gwella gwybodaeth a chefnogaeth i deuluoedd;
- cryfhau trefniadau integreiddio amlasiantaeth
- hyrwyddo addysg ddwyieithog a chynhwysol.

Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yn ystod y sesiwn tystiolaeth lafar, fe wnaethoch chi dynnu sylw at y ffaith nad oedd digon o amser yn y Senedd hon i ddiwygio'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol. Rydym yn gwerthfawrogi mai dyma'r sefyllfa, ond rydym yn siomedig na ddechreuodd y gwaith hwn yn gynharach yn nhymor y Senedd,

² Senedd Cymru, Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Pecyn Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer Rhieni: Adolygiad y Grŵp Cyngori, Rhagfyr 2025

yn enwedig gan ei bod yn amlwg yn gynnar yn y tymor fod problemau gyda'r Cod. Felly, rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn blaenoriaethu'r gwaith hwn yn dilyn etholiadau mis Mai, ac y bydd y Senedd nesaf a rhanddeiliaid perthnasol yn cael digon o amser i graffu ar y Cod. Mae'r Cod yn rhan hanfodol o'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i'r system ADY.

Egluro pwy sydd ag ADY a sut y gall dysgwr ADY gael cymorth

Mae'r sefyllfa o ran cyllid cyhoeddus yn parhau i fod yn heriol. Rydym yn croesawu'r £113 miliwn ychwanegol yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27 i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau craidd, gan gynnwys ysgolion. Rydym hefyd yn croesawu'r £4 miliwn ychwanegol i'r Llinell Wariant ar gyfer ADY o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn y Gyllideb Derfynol. Mae hyn yn dilyn £5 miliwn ar gyfer yr elfen 'Diwygio' yn y Grant Addysg Awdurdod Lleol sydd eisoes wedi'i ddyrannu yn y Gyllideb Ddrafft. Ond, gwyddom fod hyn yn parhau i fod yn her i awdurdodau lleol ac ysgolion.

Fel rydym wedi'i nodi drwy gydol yr ymchwiliad hwn, mae nifer y plant sy'n cael eu cydnabod fel rhai sydd ag ADY ac sy'n cael Cynlluniau Datblygu Unigol yn sylweddol is na'r rhai a gafodd gymorth o dan y drefn Anghenion Addysgol Arbennig flaenorol. Rydym eisoes wedi archwilio'r rhesymau posibl am hyn yn fanwl, ac nid ydym yn eu hailadrodd yma. Fodd bynnag, mae'n ymddangos i ni fod y swm mwyaf o waith sy'n gysylltiedig â chefnogi pob disgybl sydd ag ADY, gan gynnwys paratoi a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol, wedi golygu bod ysgolion wedi gorfod addasu yn unol â hynny ac yn y bôn, wedi codi'r bar ar gyfer yr hyn sy'n cyfrif fel ADY. Rydym yn parhau i bryderu na fydd rhai plant yn elwa ar y gefnogaeth angenrheidiol a hynny yn rhannol oherwydd yr hinsawdd ariannol. Rhaid iddo barhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pob plentyn sydd angen cymorth ADY yn ei gael, ac nad yw penderfyniadau'n cael eu llywio gan gyfyngiadau ariannol.

Fel rydych chi wedi ei gydnabod, mae'n hanfodol gwneud elfennau allweddol o'r diffiniad o ADY yn gliriach, elfennau megis 'anhawster sylweddol fwy i ddysgu' a 'darpariaeth ddysgu ychwanegol' yn hytrach na chyfeirio at 'ddarpariaeth gyffredinol' fel bod dealltwriaeth gyffredin o'r rhain ac felly gellir cymhwyso'r diffiniad o ADY yn gyson.

Rydym yn croesawu'r newyddion, o'r sesiwn graffu gyffredinol ar 4 Chwefror 2026, fod disgwyl i'r canllawiau gael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth ac y byddant yn nodi:

- Y broses o adnabod a thystio bod gan rywun ADY drwy ddefnyddio'r prawf cyfreithiol dau gam;
- Disgwyliadau clir ynghylch sut i fynegi penderfyniadau.
- Sut y mae trin anghydfodau a phenderfyniadau sy'n cael eu hailystyried; a



- Sut y mae teuluoedd yn defnyddio'r hawl i apelio.³

Hefyd, yn ystod y sesiwn ar 4 Chwefror, nodwyd gennych y byddai'r gwaith o ddiffinio darpariaeth gyffredinol yn cymryd mwy o amser oherwydd graddfa'r gwaith o ymgynghori'n eang, yr angen i wneud hynny ac arwyddocâd y gwaith. Nodwyd gennych hefyd y byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar ôl etholiad y Senedd.⁴

Casgliad 1: Credwn ei bod yn hanfodol darparu mwy o eglurder ynglŷn â'r diffiniad o ADY a sut y dylid ei gymhwyso, a gobeithiwn y bydd y canllawiau nesaf yn gwneud hynny.

1. Allwch chi ddarparu amserlen ar gyfer pryd y bydd y gwaith ar ddiffinio darpariaeth gyffredinol yn cael ei gwblhau a'i gyhoeddi?

Un mater sydd wedi codi'n barhaus yn ystod yr ymchwiliad hwn ac mewn gwaith arall cysylltiedig yw'r opsiynau a'r gefnogaeth sydd ar gael i ddysgwyr ag ADY pan fyddant yn gorffen addysg orfodol.

Un mater penodol yw hawliau. Mae geiriad y Cod ADY yn dangos mai dim ond dwy flynedd o addysg bellach y mae gan berson ifanc hawl iddo oni bai bod awdurdod lleol yn penderfynu bod ganddo anghenion rhesymol am fwy o addysg neu hyfforddiant mewn amgylchiadau penodol. Mae hyn yn adlewyrchu cynnwys Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Ond yn adolygiad diweddar Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru, cafodd ei nodi nad yw'n ymddangos bod hyn yn ystyried dyletswyddau o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae'n galw am "gael eglurhad pellach ar sut y bwriedir i'r ddau gysyniad hyn, a allai wrthdaro, ryngweithio".⁵

Yn ystod y sesiwn ar 23 Hydref, fe wnaethoch chi gydnabod bod angen mwy o eglurder ynghylch sut y mae'r gwahanol ddeddfwriaethau yn rhyngweithio, gan gynnwys Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, a gwnaethoch fynegi bod gwaith yn cael ei wneud i roi'r eglurder hwn.⁶

Casgliad 2: Credwn ei bod yn hanfodol egluro'r hawl bwysig hon ar gyfer addysg ôl-16 fel bod dysgwyr, a'u teuluoedd yn gwybod beth i'w ddisgwyl ac y gallant wneud penderfyniadau gwybodus am yr hyn sydd orau i'r dysgwr unigol.

2. A allwch chi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y bydd cwestiynau ynghylch rhyngweithio rhwng y Cod ADY, Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn cael eu datrys?

³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 4 Chwefror 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 88

⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 4 Chwefror 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 90

⁵ Tribiwnlys Addysg Cymru, Adolygiad o'r Fframwaith Deddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru, Y Barnwr June McConnell, 1 Medi 2025, paragraff 2.9

⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 133-135

Gwella cymorth i deuluoedd

Cafwyd sesiwn tystiolaeth lafar cyn cyhoeddi'r Pecyn cymorth i rieni a gofalwyr plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn ystod y sesiwn fe wnaethoch ddweud bod y pecyn wedi'i greu gyda chymorth teuluoedd. Ar ôl ei gyhoeddi, fe wnaethom ofyn i'n Grŵp Cyngori Ar-lein, a oedd wedi darparu mewnwlediad a mewnbwn amhrisiadwy yn ystod ein hymchwiliad i fynediad i bobl anabl, am eu barn nhw am y Pecyn Cymorth. Mae copi o'r adroddiad ymgysylltu wedi'i gynnwys gyda'r llythyr hwn.

Roedd y Grŵp yn teimlo bod y pecyn cymorth yn:

*"... gor-symleiddio realiti'r broses ADY, gan gynnwys amserlenni, rhan yr awdurdodau lleol, a'r pontio rhwng cyfrifoldeb yr ysgol a chyfrifoldeb yr awdurdod lleol. Cytunodd y cyfranogwyr fod y pecyn cymorth yn cyflwyno prosesau fel rhai di-dor a syml, tra bod y realiti i lawer o rieni yn llawer mwy cynnil, cymhleth ac yn aml yn heriol yn emosiynol."*⁷

Roeddent am weld cyngor ymarferol mwy manwl, yn enwedig ynghylch herio penderfyniadau a llywio'r prosesau cymhleth. Pan fo'r pecyn yn tynnu sylw at wybodaeth ar gyfer herio, roeddent yn teimlo ei fod yn rhy syml ac nad oedd yn cyfleu digon am y costau, y straen, y cymhlethdodau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosesau fel adolygiad barnwrol neu apeliadau.⁸

Gwnaethant alw hefyd am i'r pecyn cymorth gynnwys mwy o wybodaeth am hawliau plant a rhieni, ac i gynnwys mwy o fanylion am y camau sydd eu hangen i gael cymorth. Gwnaethant awgrymiadau hefyd ar sut y gellid cyfleu'r wybodaeth yn y pecyn cymorth mewn modd mwy eglur, er enghraifft trwy ddefnyddio siartiau llif. Roeddent hefyd eisiau gweld y pecyn cymorth yn paratoi rhieni yn well ar gyfer amserlen gymhleth, sydd yn aml yn hir, y byddent yn debygol o'i hwynebu. Yn olaf, roeddent eisiau gweld y pecyn cymorth yn cydnabod yr amrywiaeth eang o anghenion yn gliriach, wrth barhau i bwysleisio pwysigrwydd darpariaeth a chymorth unigol.⁹

3. Beth yw eich barn ar y materion a godwyd gan ein Grŵp Cyngori, a sut y gellid mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd?

Pan fydd y system yn methu, rydym yn gwybod y bydd rhai teuluoedd yn penderfynu addysgu yn y cartref. Er bod addysgu yn y cartref yn ddewis cadarnhaol a rhagweithiol i lawer, i rai gall fod yn ymateb i ddiffyg cefnogaeth ddigonol. Amlygwyd hyn yn yr adroddiad ar yr arolwg o rieni a gofalwyr

⁷ Senedd Cymru, Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Pecyn Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer Rhieni: Adolygiad y Grŵp Cyngori, Rhagfyr 2025

⁸ Senedd Cymru, Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Pecyn Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer Rhieni: Adolygiad y Grŵp Cyngori, Rhagfyr 2025

⁹ Senedd Cymru, Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, Pecyn Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer Rhieni: Adolygiad y Grŵp Cyngori, Rhagfyr 2025



a ddangosodd fod 85% (25 allan o 33) wedi dweud y dylanwadwyd ar eu penderfyniad i ddechrau addysgu yn y cartref gan bryder na fyddai'r addysg a gynigir gan yr awdurdod lleol yn diwallu anghenion dysgu eu plentyn. Dywedodd hanner y rhain y byddai'n well ganddynt i'w plentyn ddychwelyd i'r ysgol pe bai cymorth a darpariaeth briodol ar eu cyfer.¹⁰

Ochr yn ochr â'r ymrwymiad i gyhoeddi canllawiau ynghylch y diffiniadau o ADY a amlinellwyd gennym yn gynharach yn y llythyr, nodwn eich bod hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith y byddai canllawiau ychwanegol yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Bydd y canllawiau hyn yn nodi'r disgwyliadau o ran cefnogaeth mewn amgylchiadau penodol gan gynnwys ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, plant sy'n cael addysg yn y cartref a'r rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol.¹¹ Fel y gwyddoch, codwyd materion y ddau grŵp cyntaf yn ein gwaith craffu arall.¹²

Yn ein hymchwiliad i absenoldebau disgyblion o'r ysgol a'r ymchwiliad i fynediad i bobl anabl, clywsom am deuluoedd a oedd yn teimlo nad oedd ganddynt unrhyw opsiwn ond addysgu yn y cartref oherwydd diffyg cymorth priodol yn yr ysgol.¹³ Rydym yn ymwybodol bod cael addysg yn y cartref yn ddewis cadarnhaol, ar y cyfan, i blant a'u teuluoedd, ond ni allwn anwybyddu'r hanesion a glywsom gan y teuluoedd hynny a oedd yn teimlo nad oedd ganddynt ddewis arall.

4. Allwch chi roi rhagor o wybodaeth am y cymorth a roddir i blant ag ADY a'u teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref? Beth mwy y gellir ei wneud i sicrhau nad yw teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i wneud penderfyniad i addysgu yn y cartref oherwydd diffyg cefnogaeth i anghenion eu plentyn yn yr ysgol?

Cryfhau integreiddio aml-asiantaeth

Drwy gydol ein holl waith, mae pwysigrwydd defnyddio dull integredig gan wasanaethau cyhoeddus ac eraill sy'n cefnogi plant a'u teuluoedd wedi bod yn thema gyson. Rydym yn gwybod bod amseroedd aros hir ar gyfer diagnosis a chymorth gan wasanaethau iechyd yn dal i fod yn broblem. Yn amlwg, ni ddylai cymorth drwy'r system ADY fod yn ddibynnol ar asesiadau neu ddiagnosis penodol a dylai fod yn seiliedig ar anghenion unigol plentyn. Ond, mae'n ymddangos nad dyma sut y mae'n gweithio'n ymarferol mewn rhai achosion. Mae'r angen yn amlwg am fynediad mwy chwim at ddiagnosis a chymorth drwy'r GIG, gwasanaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol, yn ogystal

¹⁰ Llywodraeth Cymru, [Gwerthusiad o'r system anghenion dysgu ychwanegol \(ADY\): arolwg o rieni a gofalwyr](#), Hydref 2025, t69

¹¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 4 Chwefror 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 89

¹² Ymchwiliadau'r Pwyllgor: [Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical: Absenoldebau disgyblion o'r ysgol](#); ac [A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?](#)

¹³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Absenoldebau Disgyblion, Tachwedd 2022, paragraffau 136-137 ac Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?](#), Gorffennaf 2024, paragraffau 248-249



â'r trydydd sector a sefydliadau cymorth eraill. Yn ystod y sesiwn tystiolaeth lafar, fe wnaethoch chi sôn am gyfarfod tairochrog gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog lechyd Meddwl a Llesiant, a bod cyfarfod arall ar fin digwydd.¹⁴ Ar 4 Chwefror, fe wnaethoch ddweud eich bod wedi cyfarfod.¹⁵

Mae angen dull trawslywodraethol er mwyn bwrw ymlaen â gweithredu'r gwelliannau angenrheidiol, gyda phob Ysgrifennydd Cabinet a Gweinidog perthnasol yn sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Er mwyn gweithio'n llwyddiannus, mae angen cefnogaeth lawn ac ymrwymiad gan lywodraeth leol hefyd. Nid yw'n glir i ni pa mor effeithiol yw'r cydweithio hwn.

5. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r cyfarfodydd tairochrog?

6. Pa mor effeithiol y mae'r gweithio trawslywodraethol wedi bod, yn eich barn chi, o ran sicrhau bod cymorth ADY yn gyfannol, yn integredig ac yn amserol? Wrth fyfyrir ar eich amser yn y Llywodraeth, beth sydd wedi gweithio'n effeithiol, a beth ddylai newid yn eich barn chi?

7. A yw awdurdodau lleol, y GIG a Llywodraeth Cymru wedi gallu cydweithio i ddiwallu anghenion dysgwyr yn effeithiol? A oes enghreifftiau o arfer da a sut y gellir ei rannu ledled Cymru?

Un elfen bwysig wrth sicrhau gweithio amlddisgyblaethol effeithiol yw rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig ("DECLO"), a sefydlwyd gan Ddeddf 2018. Er bod y sefyllfa bresennol yn cydymffurfio â llythyren y ddeddf, nid yw'n dilyn ysbryd y Ddeddf hon ac rydym yn parhau i fod o'r farn nad yw hyn yn gwneud llawer o argraff arnom. Pan godwyd hyn gennym, bu'n rhwystredig nad ydyn ni wedi teimlo bod ymgysylltiad gwirioneddol wedi bod â graddfa'r newid sydd ei angen yn ein barn ni. Yn hytrach, dibynnwyd ar y ffaith bod cydymffurfiaeth â'r Ddeddf wrth rannu pedwar DECLO rhwng saith Bwrdd lechyd. Nid ydym o'r farn mai dyma'r union fwriad wrth i'r ddeddfwriaeth fynd drwy'r Senedd, er enghraifft roedd y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at "...arweinydd strategol ar lefel uwch ym mhob bwrdd ieuchyd yn goruchwyllo cyfrifoldebau'r bwrdd...".¹⁶ Rydym yn ailadrodd canfyddiadau ein hadroddiad interim, a'n hargymhelliad y dylai pob bwrdd ieuchyd gael ei DECLO ei hun.

Casgliad 2: Dylai pob Bwrdd lechyd yng Nghymru gael Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg pwrpasol ei hun. Efallai bod y sefyllfa bresennol lle mae Byrddau lechyd yn rhannu Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg yn dilyn llythyren Deddf 2018, ond nid yw'n cyd-fynd â'i

¹⁴ https://cofnod.senedd.cymru/Committee/15375_Y_Pwyllgor_Plant_Pobl_Ifanc_ac_Addysg_23_Hydref_2025_Cofnod_y_Trafodion, paragraff 106

¹⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 4 Chwefror 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 94

¹⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol Diwygiedig – Tachwedd 2017, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), paragraff 3.62



hysbryd. Mae rôl Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg yn hanfodol i gefnogi gwaith amlddisgyblaethol ac i sicrhau cefnogaeth gyfannol sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr.

Hyrwyddo addysg ddwyieithog a chynhwysol

Mae sicrhau bod gan yr holl staff addysg yr hyfforddiant digonol i gefnogi dysgwyr ADY yn hanfodol i ddarparu addysg gwbl gynhwysol. Mae'n amlwg nad yw hyfforddiant a gwybodaeth bob amser ar gael yn rhwydd i staff. Rydym eisoes wedi gwneud argymhellion ynghylch hyfforddiant gorfodol ar anabledd (yr ydym yn cydnabod ei fod yn wahanol i ADY). Roeddem yn siomedig y cafodd y rhain eu gwrthod.

Rydym hefyd yn cydnabod y newidiadau yn y maes hwn, yn enwedig sefydlu 'Dysgu'. Mae'n rhy gynnar i weld pa effaith fydd 'Dysgu' yn ei chael ar wella cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff addysg. Ond, hoffem gael rhywfaint o sicrwydd ynghylch y cyfleoedd i'r holl staff sy'n gweithio ac yn cefnogi plant ag ADY i gael mynediad at hyfforddiant ac arweiniad i sicrhau eu bod yn darparu cymorth o'r ansawdd uchaf. Dylai cyfleoedd o'r fath fod ar gael i bawb sy'n cefnogi dysgwyr ADY, p'un a ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan ysgolion ac awdurdodau lleol neu'n gweithio ar gontract, er enghraifft y rhai sy'n darparu cludiant.

8. Pa gyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd ar gael i staff sy'n gweithio gyda phlant ag ADY? Yn benodol, y rhai a allai fod dan gontract i gefnogi plant, fel darparwyr cludiant.

Mae cael cymorth dwyieithog yn hanfodol i gefnogi plant a'u teuluoedd yn effeithiol. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r heriau ehangach o ran recriwtio a chadw staff addysg sydd â sgiliau Cymraeg. Fel y gwyddoch, mae hyn yn rhywbeth y gwnaethom edrych arno yn ystod ein gwaith craffu ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)¹⁷, a'n hymchwiliad polisi mwy diweddar ar recriwtio a chadw athrawon.¹⁸

Mae'n hanfodol bod gan y sector cyfrwng Cymraeg yr un disgwyliadau ar gyfer hyfforddiant a sgiliau ADY ag sydd gan y sector cyfrwng Saesneg. Rydym wedi dadlau'n gyson dros sicrhau bod gan staff addysg fynediad at hyfforddiant i'w helpu i roi cymorth i blant ag ADY neu blant anabl. Roeddem yn siomedig bod yr argymhelliad a wnaethom, fel rhan o'n hymchwiliad mynediad i bobl anabl, i gyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd gorfodol i holl staff addysg, wedi'i wrthod,¹⁹ Byddai hyn wedi gosod llinell sylfaen a fyddai wedi helpu i sicrhau bod gan leoliadau addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg staff â'r sgiliau a'r wybodaeth i ddarparu cefnogaeth yn hyderus.

¹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1. Rhagfyr 2024

¹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Recriwtio a chadw athrawon, Ionawr 2026

¹⁹ Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, 30 Medi 2024, Argymhelliad 19



Casgliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg sydd ar y gweill yn cynnwys hyfforddiant digonol i gefnogi darparu gwasanaeth a chefnogaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer ADY. Dylai gynnwys addysg gychwynnol i athrawon a dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon presennol.

Gwyddom fod yr adolygiad pum mlynedd o ddigonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg ar gychwyn. Bydd angen i'r Senedd a'r Llywodraeth nesaf ystyried yr adolygiad pwysig hwn, gan gynnwys ystyried materion fel y prawf "camau rhesymol" sydd yn y Ddeddf ar gyfer ymdrechion i gynnig darpariaeth yn y Gymraeg lle mae gofyn amdani.

Nodwn fod hyd tymor y Senedd wedi newid o bum mlynedd i bedair blynedd ers pasio Deddf 2018. Nid yw'n glir i ni os mai'r bwriad gwreiddiol oedd cynnal adolygiad ym mhob un o dymhorau'r Senedd. Os felly, efallai y bydd angen ailedrych arno. Rydym yn gwerthfawrogi y byddai hyn yn gofyn am newid mewn deddfwriaeth sylfaenol.

9. Wrth osod amserlen bum mlynedd, ai bwriad gwreiddiol Deddf 2018 oedd cynnal adolygiad o ddigonolrwydd y ddarpariaeth dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg unwaith bob tymor yn y Senedd? Os felly, a oes unrhyw gynlluniau i ailystyried amserlen yr adolygiadau i adlewyrchu'r newid yn hyd tymor y Senedd?

Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Roedd Deddf 2021 yn newid unwaith mewn cenhedlaeth i addysg yng Nghymru. Ni ellir anwybyddu maint y newid a ddisgwyliid o'r system addysg. Daeth ar y cyd â'r diwygiadau dirgrynnol i ADY o dan Ddeddf 2018. Yn ogystal, mae'r system addysg yn parhau i ymdrin ag effaith hir y pandemig, a newidiadau cynyddol mewn cymdeithas y mae disgwyl i ysgolion eu rheoli, a'u lliniaru mewn rhai llefydd. Fel y cafodd ei nodi yn ein hadroddiad diweddar ar recriwtio a chadw athrawon, mae llawer o ofyn ar ysgolion ac mae angen clir i leihau unrhyw newid pellach yn y system.²⁰

Gwyddom mai cymysg oedd effeithiolrwydd gweithredu'r cwricwlwm newydd mewn rhai achosion, gydag Estyn yn nodi: "Mae gormod o amrywiant o hyd yn nealltwriaeth ysgolion o'r cwricwlwm wedi'i arwain gan ddibenion".²¹ Mae'n bwysig bod cymorth ar gael i sicrhau bod pob dysgwr yn cael yr un lefel o addysg, hyd yn oed os bydd y cwricwlwm unigol yn wahanol mewn rhai ysgolion. Er na fydd unfurfiaeth, rhaid bod digon o gysondeb. Er mwyn cefnogi ysgolion yn well i weithredu Deddf 2021 a chyflwyno Cwricwlwm i Gymru, credwn fod angen canllawiau cliriach ar gyfer asesu a dilyniant. Mae asesu a dilyniant yn parhau i fod gyda'r meysydd mwyaf heriol wrth weithredu'r cwricwlwm newydd,

²⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Recriwtio a chadw athrawon, Ionawr 2025

²¹ Estyn, Adroddiad Blynyddol 2023-24, Addysgu a'r Cwricwlwm



gydag ysgolion yn nodi anawsterau wrth asesu dilyniant dysgwyr unigol a'u lleoliad ar y continwrm dysgu. Dywedodd Estyn wrthym y byddai'n ddefnyddiol darparu disgwyliadau gofynnol sy'n gysylltiedig ag oedran²² ac fe wnaethoch chi nodi, ar 23 Hydref,²³ fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r rhain, gan gydnabod nad oes manylion ar gael ar hyn o bryd ar gyfer ysgolion.²⁴ Rydym yn croesawu'n gynnes y gwaith i ddatblygu'r disgwyliadau hyn sy'n gysylltiedig ag oedran er mwyn rhoi mwy o eglurder i ysgolion.

10. Pryd ydych chi'n disgwyl cyhoeddi canllawiau pellach ar asesu a dilyniant, megis y disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran y gwnaethoch ddweud eu bod yn cael eu datblygu? A fydd hyn yn darparu fframwaith clir i weithwyr addysg proffesiynol i asesu disgyblion, cefnogi eu datblygiad dysgu a rhoi eglurder ynghylch sut y dylent wneud cynnydd o ran y Cwricwlwm i Gymru?

Ein dull o graffu

Yn olaf, gan ein bod wedi mabwysiadu agwedd newydd at ein gwaith craffu ar y ddau ddarn hyn o ddeddfwriaeth, byddem yn croesawu adborth Llywodraeth Cymru ar ein dull. A fu hyn yn ddull defnyddiol o graffu yn eich barn chi? A oes unrhyw agweddau a weithiodd yn dda, neu nad oedd yn gweithio'n dda yn eich barn chi?

Byddem yn gwerthfawrogi cael eich ymateb erbyn 6 Mawrth. Rydym yn gwerthfawrogi bod hyn yn rhoi llai o amser nag arfer, ond bydd hyn yn ein galluogi i ystyried yr ymateb yn ein gwaith gwaddol.

Yn gywir,



Buffy Williams AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

²² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 43 a 72-73.

²³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 153-157.

²⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 75.



Eitem 3.8

Lynne Neagle AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/LN/2345/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddDCC@senedd.cymru

16 Chwefror 2026

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Chwefror, yn gofyn am eglurder ar nifer o bwyntiau yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar gyfer y Bil Lles Plant ac Ysgolion.

Rwyf wedi ymateb i bob un o'r cwestiynau a godwyd gennych yn eu tro. Er hwylustod, rwyf wedi cynnwys y cwestiynau a nodwyd yn eich llythyr.

1. *A allwch gadarnhau os gwelwch yn dda a yw'r gwelliant y cyfeirir ato ym mharagraff 24 o Femorandwm Rhif 4 bellach wedi'i gyflwyno ac a fydd yn cael ei gynnwys yn y memorandwm cydsyniad atodol ychwanegol fel y disgwylir?*

Cafodd y gwelliant i gymhwyso gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd i'r rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 24 ei [gyflwyno](#) ddydd Iau 5 Chwefror 2026, cyn y Trydydd Darlleniad ddydd Llun 9 Chwefror. Mae dau welliant yn y rhestr hon yn gymwys i Gymru ac felly bydd y ddau yn cael eu cynnwys mewn Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach (Memorandwm Rhif 5).

2. *Mae Memorandwm Rhif 4 yn cyfeirio at bŵer gwneud rheoliadau mewn gwelliannau i gymal 32, sy'n ymwneud â'r amcangyfrif o amser y mae plentyn yn cael addysg gan rieni neu ddarparwyr eraill. Nid yw'n glir ym Memorandwm Rhif 4 a yw hwn yn bŵer newydd i wneud rheoliadau na pha weithdrefn graffu'r Senedd fydd yn cael ei chymhwyso i reoliadau o'r fath.*

Nid yw'r pŵer i wneud rheoliadau y cyfeirir ato yn y gwelliant yn bŵer newydd. Y rheoliadau y cyfeirir atynt yw'r rhai sydd i'w gwneud o dan adran arfaethedig 436C(4) o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i mewnosodwyd gan Gymal 32). Cytunwyd ar welliant 164 yn y Cyfnod Adrodd ac mae'n darparu bod rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y darpariaethau a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 68

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

restrir yn Neddf Addysg 1996, gan gynnwys 436C(4) (fel y'i mewnosodwyd gan Gymalau 32 a 33), yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

3. *A allwch gadarnhau'r weithdrefn graffu a fydd yn gymwys i wneud rheoliadau o dan gymal 32 o'r Bil os derbynnir y gwelliannau i'r cymal hwnnw yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi?*

Mae'r weithdrefn graffu ar gyfer y rheoliadau o dan Gymal 32 yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd. Cyflwynwyd pŵer dirprwyedig ar gyfer y rheoliadau o dan Welliant 164. Mae'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob rheoliad ar gyfer darpariaethau CNIS o dan Gymalau 32 a 33 fod yn gadarnhaol bob amser yn hytrach na chadarnhaol yn y lle cyntaf ac yn negyddol ar ôl hynny.

4. *Mae gwelliant 244 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ganlyniadol (cymal newydd a gynigir ar ôl cymal 64). Nodwn fod y gwelliant hwn yn mynd i'r afael ag argymhelliad 4 yn ein hadroddiad cyntaf. Fodd bynnag, nid oes sôn ym Memorandwm Rhif 4 am weithdrefn graffu'r Senedd sydd i'w chymhwyso i'r rheoliadau hynny. Mae'n ymddangos i'r Pwyllgor mai gweithdrefn annilysu'r Senedd fydd yn cael ei chymhwyso, oni bai bod y rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Yn yr achos hwnnw, gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd fydd yn cael ei chymhwyso. A allwch gadarnhau'r weithdrefn graffu a fydd yn gymwys i wneud rheoliadau o dan y cymal newydd sydd i'w fewnosod ar ôl cymal 64 drwy welliant 244, os bydd yn cael ei dderbyn yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi?*

Derbyniwyd gwelliant 244 yn ystod trydydd cyfarfod Tŷ'r Arglwyddi yn y Cyfnod Adrodd ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, ar 28 Ionawr. Gallaf gadarnhau y bydd gweithdrefn annilysu'r Senedd yn cael ei chymhwyso, oni bai bod y rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Yn yr achos hwnnw, gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd fydd yn cael ei chymhwyso.

5. *A fydddech cystal â chadarnhau pa welliannau ym Memorandwm Rhif 4 sydd wedi'u trafod yn Nhŷ'r Arglwyddi a chanlyniad y drafodaeth honno;*

Ystyriwyd yr holl welliannau ym Memorandwm Rhif 4 yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ddydd Mercher 28 Ionawr.

Pasiwyd pob gwelliant ar wahân i Welliant 120. Roedd y gwelliant hwn yn cynnig ehangu'r meini prawf o dan Gymal 31 ar gyfer rhoi caniatâd gan awdurdod lleol i blant penodol gael eu symud o'r ysgol, i gynnwys plant sy'n destun cynllun amddiffyn plant o fewn y 5 mlynedd diwethaf. Ni basiwyd y gwelliant oherwydd ei fod wedi'i ddisodli gan Welliant anllywodraethol 121A, a gyflwynwyd gan y Farwnes Barran, Gweinidog Addysg yr Wrthblaid Geidwadol yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Mae Gwelliant 121A yn cynnig ehangu cwmpas y mecanwaith cydsynio o 5 mlynedd i blant sydd erioed wedi bod yn destun ymholiadau neu orchymyn adran 47 neu adran 31, a phob plentyn sy'n cael ei ystyried yn 'blentyn mewn angen' o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989.

Mae cytuno i'r gwelliant anllywodraethol yn sbarduno Rheol Sefydlog 29 ac mae'n ddarostyngedig i gydsyniad deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae'r gwelliant fel y'i drafftiiwyd yn gymwys i Gymru yn rhannol yn unig. Mae hyn oherwydd nad yw adran 17 o Ddeddf Plant 1989 yn gymwys i Gymru. Mae'r ddarpariaeth gyfatebol wedi'i chynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Fel gwelliant anllywodraethol y cytunwyd arno, bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei chwmpasu gan Reol Sefydlog 29. Rwy'n ymwybodol nad yw'r safbwynt ar y gwelliant yn derfynol a bydd angen newidiadau drafftio fariol i'w rhoi'n ddadl ym petyl 69

Mae fy swyddogion yn ymgysylltu'n agos â'r Adran Addysg mewn perthynas â'r gwelliant anllywodraethol ac i gyflwyno safbwynt Llywodraeth Cymru a'r goblygiadau posibl i Gymru. Byddaf yn ymgorffori'r safbwynt terfynol ar y ddarpariaeth hon yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol sydd ar ddod ac rwyf wedi annog Llywodraeth y DU i gyflwyno unrhyw welliannau cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod y Senedd yn gallu eu hystyried cyn y ddadl ynghylch cydsyniad deddfwriaethol. Bydd hyn yn sicrhau bod y Senedd yn gallu ystyried fersiwn fwy terfynol o'r Bil ac o bosibl yn osgoi'r angen i osod sawl Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar yr un gwelliant.

6. *Mewn perthynas ag unrhyw welliannau i'r Bil sydd i fod yn destun pumed memorandwm, a allwch chi sicrhau bod y memorandwm hwnnw yn nodi a fydd gwelliannau o'r fath wedi cael eu trafod cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad ar 3 Mawrth 2026? Os na fyddant, a allwch chi egluro beth mae hyn yn ei olygu o ran ceisio cydsyniad y Senedd ar eu cyfer?*

Fel y nodwyd o dan fy ymateb i Gwestiwn 1, cyflwynwyd dau welliant sy'n gymwys i Gymru ddydd Iau 5 Chwefror a chytunwyd arnynt yn y Trydydd Darlleniad ddydd Llun 9 Chwefror. Mae'r rhain yn ymwneud ag ychwanegu 'gofalwyr ifanc' yn yr wybodaeth sydd i'w chynnwys am blant nad ydynt mewn cofrestrau ysgolion, a'r weithdrefn ar gyfer y rheoliadau y cyfeirir atynt o dan Welliant 125. Efallai y bydd gwelliant pellach hefyd mewn perthynas â'r darpariaethau gofal cymdeithasol. Bydd pob gwelliant yn cael ei gynnwys mewn Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach, ynghyd â'r gwelliant anllywodraethol y cyfeirir ato uchod.

O ystyried y gwelliannau arfaethedig uchod, ac er mwyn sicrhau y gellir gosod ac ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach cyn y ddadl, rwyf wedi symud dyddiad y ddadl i 17 Mawrth. Bydd hyn yn galluogi'r Senedd i ystyried fersiwn fwy terfynol o'r Bil.

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am eich gwaith ar y Bil hyd yn hyn.

Yn gywir



Lynne Neagle AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Children, Young People and Education Committee

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Chris Llewellyn

17 Chwefror 2026

Blaenoriaethu addysg yn y setliad llywodraeth leol terfynol

Annwyl Chris,

Rwy'n ysgrifennu ar ran y Pwyllgor yn dilyn ein sesiwn graffu gyffredinol ddiweddar ar 4 Chwefror gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Yn ystod y sesiwn, pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei hymrwymiad i sicrhau cyllid craidd ychwanegol ar gyfer addysg fel rhan o'r setliad llywodraeth leol terfynol – amcan y nododd hi gyntaf yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft ar 27 Tachwedd 2025¹. Rydym yn croesawu ei chadarnhad bod hyn wedi'i adlewyrchu i raddau ystyrlon yn y gyllideb derfynol, gan arwain at £112.8 miliwn ychwanegol i lywodraeth leol.²

Esboniodd hefyd, yn dilyn trafodaethau ar draws y Llywodraeth, fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol ar 20 Ionawr i danlinellu bod y buddsoddiad ychwanegol hwn yn cydnabod y pwysau ariannol sy'n wynebu gwasanaethau addysg a gofal cymdeithasol.

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth hon o'r heriau y mae ysgolion yn eu hwynebu a pha mor bwysig yw sicrhau eu bod yn cael eu hariannu'n ddigonol. Ar adeg pan fo'r sefyllfa o ran cyllid cyhoeddus yn parhau i fod yn hynod heriol, rydym yn cydnabod efallai na fydd yr adnodd ychwanegol a ddarperir drwy'r Grant Cymorth Refeniw yn gallu ymdopi â'r holl bwysau hyn. Fodd

¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 35.

² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 4 Chwefror 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 11.

bynnag, rydym yn gweld y setliad terfynol gwell fel ffordd hanfodol o alluogi awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion i'r eithaf.

Drwy gydol proses y gyllideb, rydym wedi bod yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol hyn ar ysgolion. Roedd eich cyflwyniad i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid yn ddatganiad clir am yr heriau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol, gan gynnwys y bwlch o £137 miliwn ar gyfer 2026-27 a'r pwysau cynyddol sy'n gysylltiedig ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ddifrifoldeb y sefyllfa hon yn ystod ein sesiwn craffu ar y gyllideb ar 27 Tachwedd. Nododd hi fod rhai awdurdodau lleol bellach yn cynnwys ADY ar eu cofrestrau risg corfforaethol.³ Atgyfnerthodd ei thystiolaeth yr angen i barhau i flaenoriaethu gwasanaethau addysg craidd.

Ei barn hi - ac rydym yn rhannu'r farn honno - yw mai'r hyn sydd ei angen fwyaf ar ysgolion yw cyllid craidd sefydlog a digonol i gyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd, sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau plant a phobl ifanc. Rydym yn sylweddoli bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r ffaith hon, gan eu bod nhw'n agosach at y gwaith caib a rhaw. Gwyddom fod cyllid craidd ar gyfer ysgolion yn cael ei ddarparu'n bennaf drwy'r Grant Cymorth Refeniw ac mai awdurdodau lleol sy'n penderfynu sut i ddyrannu'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r cynnydd mewn cyllid craidd yn gyfle pwysig i barhau i flaenoriaethu addysg. Rydym am weld y cyllid hwn yn cyrraedd gwasanaethau addysg.

Nodwn hefyd fod llythyr Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol at awdurdodau lleol yn dweud bod y setliad yn "cynnig cyfle gwerthfawr i awdurdodau lleol ddyrannu adnoddau sylweddol i'w hysgolion, i ganolbwyntio ar bwysau allweddol anghenion dysgu ychwanegol, cludiant i'r ysgol, y gweithlu a llwyth gwaith".

Yng ngoleuni hyn a safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, rydym am danlinellu pwysigrwydd defnyddio'r adnoddau ychwanegol yn y setliad i gefnogi ysgolion. Rydym yn cydnabod yn llawn y cyd-destun ariannol anodd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu ynddo a'r ystod eang o gyfrifoldebau y mae'n rhaid i chi eu cydbwysu, gan gynnwys y pwysau mawr arall, sef gofal cymdeithasol. Serch hynny, mae'r uchelgais rydym yn ei rhannu i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc yn dibynnu ar sicrhau bod y system gyfan yn gallu cynnal y cynnydd yr ydym i gyd am ei weld.

Felly, rydym yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried yn ofalus sut y gall y cynnydd mewn cyllid craidd gefnogi gwasanaethau addysg orau, yn enwedig mewn meysydd fel ADY, cludiant i'r ysgol, y gweithlu a llwyth gwaith. Gyda thymor newydd y Senedd a Llywodraeth Cymru ar y gorwel, mae hyn yn teimlo fel moment bwysig i bob rhan o'r system gydweithio'n agos. Mae awdurdodau lleol yn bartneriaid cyflawni hanfodol ym maes addysg. Rydym yn awyddus i sicrhau, wrth i gyfrifoldeb

³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 34.



drosglwyddo i bwyllgor olynol yn y Senedd nesaf, fod dysgwyr yn parhau i gael y sefydlogrwydd a'r cymorth sydd eu hangen arnynt drwy gyllid digonol i ysgolion.

Rydym yn anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai iddynt fod yn ymwybodol ohono, gan gydnabod bod hon yn foment bwysig i gryfhau sylfeini'r system addysg am flynyddoedd i ddod.



Buffy Williams AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

cc

Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llywodraeth Cymru

Jayne Bryant AS, yr Ysgrifennydd Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

John Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



FOA Chair of the Children, Young People and Education Committee

SeneddChildren@senedd.wales

16th February 2026

Dear Chair of the Children, Young People and Education Committee,

I am writing in regard to the decision to no longer offer Sociology GCSE as an option for learners in Wales from 2026 and the impact of this removal of an opportunity to learn about issues which are highly relevant to contemporary social challenges.

The AQA Sociology GCSE is currently offered as a 'designated' GCSE in Wales, however under the new system, Qualifications Wales have deemed it to be too similar to the new approved Social Studies GCSE, and have therefore decided it will no longer be available as a 'designated' GCSE from September 2026.

Concerns were first raised with me in March 2025 by members of my Youth Advisory Panel, and I have since received over 20 individual letters from young people who are current or recent students of Sociology GCSE, as well as approaches from current teachers of Sociology GCSE from Swansea and from Newport.

The concerns include:

- the lack of sociological theoretical content and academic rigour within the proposed Social Studies GCSE which is intended to replace the Sociology GCSE offer, and hence it not offering as strong a pathway to Sociology A Level or beyond, and thereby disadvantaging Welsh students compared to English counterparts
- the lack of clear explanation for why Sociology GCSE could not continue to be offered as an option alongside the new qualification
- weakness of the initial consultation on the proposed changes, which perhaps did not make it sufficiently clear that the proposed Social Studies GCSE would effectively replace the Sociology GCSE and only received 12 responses.

I have since written to WJEC, Qualifications Wales and more recently, to the Cabinet Secretary for Education. And I have included my correspondence to the latter two in this letter. Whilst the responses I have received have offered a more in-

Tŷ Llewelyn | Llewelyn House
Parc Busnes Glan yr Harbwr
Heol yr Harbwr
Port Talbot
SA13 1SB
01792 765600
post@childcomwales.org.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.



**Comisiynydd
Plant Cymru**
Children's
Commissioner
for Wales

depth explanation into the decision-making progress, and whilst I welcome the further funding to Adnodd and WJEC for support for Wave 2 of the GCSES (including Social Studies), I remain concerned that the initial consultation on the proposed changes did not provide ample opportunity for engagement and was therefore not reflective of learners' views.

I am also concerned about the lack of time available for teachers to effectively prepare to teach the new Social Studies GCSE, with the specification only having been published in Dec 2025, and a discussion meeting happening in March 2025, this leaving virtually no INSET days available for preparing to teach an entirely new course.

I would be grateful if you would consider this as an issue to be examined in more depth by the committee, and in doing so, I encourage this process to be paused and to be postponed by an academic year, enabling teachers to be more fully prepared for what is a very different course to the one which it is replacing.

I would hope that this time could also allow for further and more meaningful consultation with teachers and most importantly learners.

Yours sincerely,

Rocio Cifuentes MBE
Children's Commissioner for Wales

Tŷ Llewelyn | Llewelyn House
Parc Busnes Glan yr Harbwr
Heol yr Harbwr
Port Talbot
SA13 1SB
01792 765600
post@childcomwales.org.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 75

Dear Cabinet Secretary,

I am writing to share my growing concerns about the decision to remove Sociology as a GCSE option for learners in Wales from September 2026, which I fear will impact detrimentally on Welsh learners, leaving them disadvantaged compared to English counterparts. I have already written to and met with both Qualifications Wales and WJEC, however I am not reassured by their response, hence this letter.

These concerns were first raised with me in March 2025 by young members of my Youth Advisory Panel, and I have since received over 20 individual letters from young people who are current or recent students of Sociology GCSE, as well as approaches from current teachers of Sociology GCSE from Swansea and from Newport.

Initial concerns were threefold: firstly, around the lack of sociological theoretical content and academic rigour within the proposed Social Studies GCSE which is intended to replace the Sociology GCSE offer, and hence it not offering as strong a pathway to Sociology A Level or beyond, and thereby disadvantaging Welsh students compared to English counterparts; secondly, and based on the strength of the first concern, around the lack of clear explanation for why Sociology GCSE could not continue to be offered as an option alongside the new qualification; and thirdly, around the weakness of the initial consultation on the proposed changes, which perhaps did not make it sufficiently clear that the proposed Social Studies GCSE would effectively replace the Sociology GCSE and only received 12 responses.

I took these concerns to both WJEC and Qualifications Wales in March 2025 and met with them subsequently in July 2025. I understand the importance of ensuring that exams in Wales more closely reflect the National Curriculum for Wales, and the need to ensure that all exams publicly available are available bilingually. However, my discussions with WJEC and Qualifications Wales suggested a lack of clarity as to the locus of decision making on the issue. WJEC indicated they would like to be able to offer both qualifications and could potentially translate an English qualification to ensure Welsh language compliance, however they felt constrained in their ability to do so by the Qualifications Wales/ Welsh Government policy framework which they felt discouraged offering two similar qualifications. My discussion with Qualifications Wales implied that it was up to WJEC and came down to a business decision.

Whilst I was not assured during my discussions about the rationale for the change itself, I have recently become even more concerned about the proposed timescales for this change to take place, which appear to leave very limited time for teachers to be adequately

prepared to teach a whole new proposed course by September 2026. I understand that while the specification for the new course was published in September 2025, no further resources were published until today 17th December 2025. It is my understanding that only one online meeting has taken place in November 2025 to introduce the new course to teachers, and that a further meeting is planned for March 2026. I am aware of strong concerns from teachers about this leaving an unacceptably short window to prepare to teach students this course from September 2026.

I am aware that similar concerns around proposed changes to History GCSE and Science GCSEs have been listened to and have resulted in a delay to the proposed introduction of new qualifications. I would urge you to at the very least press pause on this process and postpone by an academic year the date by which the proposed changes to Sociology/Social Studies are intended to take effect. This would enable teachers to more fully prepare for what is a very different course to the one which it is replacing. Furthermore, I would hope that this time could also allow for further and more meaningful consultation with teachers and learners about the proposed changes.

I am writing as Children's Commissioner to highlight these concerns which as mentioned have been raised with me directly by children and young people who are concerned about the potential removal of an opportunity to learn about issues which are highly relevant to contemporary social challenges, and to be taught by experienced teachers with adequate resources to deliver this course.

Thank you for your time and for anything you can do to provide clarity and a fair route forward. I would welcome the opportunity to give evidence or supply further details.

With thanks,

XXXXXX XXXXXXXX

XXXXXXXXXXXXXXXXX, XXXXXXXXXXXXXXXXXXXX

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Ffôn / Tel: 029 2032 0500
Ffacs / Fax: 029 2032 0600

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a
Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru

Ffôn testun / Textphone: 029 2032 0660
info@audit.cymru / post@archwilio.cymru
www.archwilio.wales/

Cyfeirnod: AC535/caf

Dyddiad cyhoeddi: 26 Chwefror 2026

Annwyl Peredur a Mark

Heriau a chyfleoedd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru

Fel y gwyddoch chi, rwy'n agosáu at ddiwedd fy nhymor fel Archwilydd Cyffredinol dros gyfnod sy'n cyd-fynd ag etholiad y Senedd. Beth bynnag fydd y blaenoriaethau o ran polisiau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru, mae'r weinyddiaeth newydd yn wynebu rhai cwestiynau mawr ynghylch cynaliadwyedd ein gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

Yn ddiweddar, fe wnaethom ryddhau cyfres o bodlediadau a oedd yn trafod fy safbwynt ar rai o'r materion hynny. Roedd fy myfyrdodau yn seiliedig ar waith Archwilio Cymru yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf, fel y maent hefyd wedi'u crynhoi drwy fy adroddiadau cynharach Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus, fy sylwebaeth 'O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol, a fy adroddiad 'Dim amser i'w golli' ar weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r bodlediadau hefyd yn cyffwrdd â themâu a drafodwyd wrth i mi ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 5 Tachwedd 2025 fel rhan o'i waith craffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru ac yn fy nhystiolaeth ysgrifenedig ategol. Mae'r dystiolaeth honno'n tynnu sylw at amryw o enghreifftiau perthnasol o fy ngwaith mwy diweddar.

Wrth i'ch pwyllgorau gyrraedd diwedd eu tymhorau eu hunain, roeddwn i eisiau cofnodi crynodeb o rai o'r myfyrdodau sydd y tu ôl i'r gyfres podlediad, er nad yw hyn, mewn unrhyw ffordd, yn gynhwysfawr.

Yn rhwystredig efallai, nid yw llawer o'r hyn yr wyf wedi'i nodi yn newydd; er enghraifft, mae fy myfyrdodau ar ein cyd-destun gwasanaeth cyhoeddus yn adlewyrchu materion a godwyd gan fy rhagflaenydd a, chyn hynny, gan sylwebwyr eraill. Mae'r materion hyn, yn fy marn i, yn bwysicach byth. Yn ystod fy amser fel Archwilydd Cyffredinol, rwyf wedi gweld llawer sy'n dda. Ond mae'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yn enfawr a'r cyfle i wella'n sylweddol. Gobeithio y bydd y Senedd a Llywodraeth nesaf Cymru yn manteisio ar y myfyrdodau hyn, a gwaith gwych fy nghydweithwyr yn Archwilio Cymru, wrth iddynt geisio ymdrin â'r materion hynny.

Wrth i mi sefyll i lawr, hoffwn ddiolch i'r ddau Bwyllgor a'r Senedd ehangach am eu cefnogaeth i waith Archwilio Cymru drwy gydol fy naliadaeth .

Yn gywir



ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Copiwyd i: Bwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth y Senedd

Myfyrdodau'r Archwilydd Cyffredinol ar yr heriau a chyfleoedd ar gyfer wasanaethau cyhoeddus Cymru

Mae gan Gymru wasanaeth cyhoeddus cryf a galluog

Mae pobl Cymru yn dibynnu ar ein gwasanaethau cyhoeddus – rydym yn gweld eu heffaith a'u darpariaeth o'n cwrdd yn ein hysgolion, ein hysbytai, ein cartrefi, ein hamgylchedd, ein cymunedau.

Mae'r gwasanaethau hynny, yn eu tro, yn dibynnu ar fedrusrwydd, gwaith caled ac ymroddiad cannoedd o filoedd o weision cyhoeddus – staff rheng flaen, gwleidyddion, uwch arweinwyr – a'u cymhellant yw gwasanaethu eu cymunedau a gwella bywydau pobl eraill.

Mae gwasanaethau wedi cael eu herio gan ddau ddegawd o bwysau ariannol, newid demograffig a chymdeithasol, galw cynyddol, a heriau ehangach yn sgil newid hinsawdd, Brexit a digwyddiadau byd-eang. Fe wnaeth pandemig COVID-19 ysgwyd ein cymdeithas i'w chraidd a galwodd am ymateb digynsail. Mae effeithiau gweddilliol y pandemig gyda ni o hyd heddiw, ar ffurf galw ôl-gronol am wasanaethau a newidiadau sylfaenol i gymdeithas ac ymddygiad.

Mae llawer i fyfyrir arno a dysgu o'r ymateb i'r pandemig, gan ein bod yn dal i'w weld wrth i ymchwiliad cyhoeddus y DU a chraffu ehangach fynd rhagddynt. Fodd bynnag, dylem gydnabod ein bod hefyd wedi gweld y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ar eu gorau yn ystod yr ymateb. Parhaodd gweithwyr rheng flaen â'u gwaith hanfodol, yn aml o dan bwysau enfawr; cydweithiodd y GIG a'r llywodraeth leol a chanolog i gyflawni mentrau achub bywydau megis y rhaglen Profi, Orlhain, Diogelu a brechu torfol; addasodd pob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yn gyflym trwy weithio o bell ac ailgynllunio gwasanaeth i barhau i gefnogi'u cymunedau.

Er y bu'n gyfnod ofnadwy i gymaint o bobl, dangosodd yr ymateb yr hyn y gellir ei gyflawni pan fydd gwasanaethau cyhoeddus wedi'u huno ar amcan clir, cyffredin ac yn gweithredu'n unfryd. Gwelsom hyn hefyd yn y ffordd y gwnaeth gwasanaethau cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i gefnogi a darparu ar gyfer pobl o Wcráin a ddadleolwyd ac a gyrhaeddodd yng Nghymru o ddechrau 2022 ymlaen, gan ategu'r hyn a ddysgwyd o'r ymateb i'r pandemig.

Ond nid yw cyflenwi gwasanaeth rhagorol yn ymwneud ag ymateb i argyfyngau'n unig. Mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl hynny bob amser ac i'r hyblygrwydd, y cydweithredu a'r cyflymder y gwnaethom ni eu gweld yn y pandemig fod yn safonol.

Dylent hefyd ddisgwyl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda ac yn rhoi gwerth da am arian.

Heriau parhaus a rhai sy'n datblygu

Trwy waith fy swyddfa, rwyf wedi adrodd yn gyson ar rai heriau parhaus sy'n wynebu'r sector cyhoeddus.

Pwysau ariannol

Mewn llywodraeth leol, mae cyllidebau o dan bwysau. Mae costau sy'n cynyddu'n gyflym mewn meysydd fel gwasanaethau plant a llety dros dro yn dod â rhai cynghorau yn agos at ddibyn cynaliadwyedd ariannol.

Yn gyffredinol, rydym yn gweld bod gan gynghorau afael cadarn ar y pwysau ariannol uniongyrchol arnynt, ond gyda llawer yn dibynnu ar gronfeydd wrth gefn i gydbwysu cyllidebau.

Mae'r dull hwn yn anghynaliadwy yn y tymor hir. Rhaid i gynghorau unigol, a'r sector yn ei gyfanrwydd, gryfhau eu gwaith cynllunio, rhagamcanu a goruchwyllo yn y tymor hir os dynt i barhau i fod yn hyfyw yn ariannol.

Yn y GIG, pasiodd y Senedd ddeddfwriaeth yn 2014 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrff iechyd unigol adennill costau, hyd yn oed dros gyfnod o dair blynedd a bod â chynlluniau ariannol tymor canolig sydd wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Ond er gwaethaf y disgwyliadau statudol hyn, nid yw'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd wedi gallu bodloni'r ddyletswydd adennill costau honno ers sawl blwyddyn.

Er gwaethaf y lefelau uchaf erioed o fuddsoddi a lefelau cynyddol o arbedion, mae byrddau iechyd yn ei chael yn anodd rheoli costau oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau, twf cyffredinol mewn costau cyflog, a phwysau eraill yn sgil chwyddiant. Gyda'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd yn dal i fethu â chynhyrchu cynlluniau tair blynedd wedi'u mantoli'n ariannol, mae'n annhebygol y bydd sefyllfa gyffredinol diffyg mewn cyllid y GIG yn newid yn y dyfodol rhagweladwy.

Mae'r pwysau ariannol hynny yn ysgogi ffocws dealladwy ar reoli arian yn y tymor byr. Ond mae'r dull adweithiol hwn yn rhwystro'r cynllunio tymor hwy a'r newidiadau trawsnewidiol sydd eu hangen arnom i greu gwasanaethau mwy cynaliadwy yn ariannol.

Mae hyn oll cyn i ni ychwanegu pwysau ehangach i'r gymysgedd, er enghraifft o ran y buddsoddiad sydd ei angen ar y GIG i gefnogi blaenoriaethau polisi ynghylch datgarboneiddio, ymdrin ag effeithiau newid hinsawdd, a helpu cymdeithas i addasu. Rwyf wedi adrodd yn flaenorol bod maint y gwariant a allai fod ei angen yn y meysydd hyn, ac o ble y bydd y cyllid hwnnw'n dod, yn parhau i fod yn aneglur.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae elwa i'r eithaf ar bob punt o wariant cyhoeddus yn hanfodol. Mae gwaith fy swyddfa i'n rhoi sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn dangos llywodraethiant ac atebolrwydd cryf. Fodd bynnag, mae yna wastraff, gwallau a thwyll o hyd. Mae ymarferion fel y cynllun paru data yr ydym yn eu hwyluso fel rhan o Fenter Twyll Genedlaethol y DU yn rhan bwysig o'n cyd-destun atal twyll. Fodd bynnag, mae llawer mwy y mae angen i gyrff cyhoeddus ei wneud i wella o ran ymateb i risgiau twyll cynyddol.

Galw a pherfformiad

Mae newid demograffig a chymdeithasol, ac effaith barhaus y pandemig yn ysgogi'r galw cynyddol.

Mewn rhai meysydd pwysig, mae perfformiad ac ansawdd y gwasanaeth yn dirywio. Gwnaeth fy adroddiad ar wasanaethau canser yn 2025, er enghraifft, ddisgrifio methiant i gyrraedd targedau amser aros allweddol ac anghydraddoldebau cynyddol mewn canlyniadau er gwaethaf mwy o gyllid. Mae prinder gweithlu, seilwaith sy'n heneiddio, a disgygliadau cynyddol y cyhoedd yn gwaethygu'r materion hyn.

Nid yw dyrannu mwy o arian yn gwarantu datrysiad. Heblaw am 2022-23, mae'r GIG wedi gweld cynnydd sylweddol, uwch na chwyddiant yn ei gyllid yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond eto nid yw'n gallu adennill ei gostau ac mae perfformiad mewn sawl maes yn anfoddhaol.

Ac mae'r gyfran gynyddol honno sy'n cael ei gymryd gan y GIG yn ddi-os yn rhoi'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer meysydd eraill o dan bwysau. Mae angen ail-gydbwysu'r patrwm newidiol hwnnw o gyllid rhwng sectorau os yw gwasanaethau pwysig i fod yn gynaliadwy, ac mae angen cyflawni gwell ganlyniadau drwyddi draw gyda'r arian cyhoeddus sydd ar gael.

Cymhlethdod a darnio

Mae'r cyd-destun darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn orlawn. Er enghraifft, mae fy swyddfa i'n archwilio cyfrifon bron i 100 o gyrff a strwythurau

cyhoeddus mwy, hyd yn oed cyn ystyried cyrff llai eraill yr wyf yn eu harchwilio, yn enwedig y 700 a mwy o gynghorau tref a chymuned.

Yn ogystal â hyn, mae trefniadau partneriaeth a chydweithredu amrywiol yn bodoli i ymdrin â'r heriau a'r problemau nad yw sefydliadau unigol yn gallu ymdrin â nhw ar eu pen eu hunain; er enghraifft, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae'r strwythurau partneriaeth hyn yn amrywio o ran effeithiolrwydd – rhai yn dda iawn ac eraill nad ydynt cystal. Maent yn aml yn gweithio mewn ôl troed daearyddol gwahanol a gall fod ganddynt aelodaeth ac amcanion sy'n gorgyffwrdd. Mae pob un ohonynt yn gofyn am gyfraniadau gan lawer o'r un gweithredwyr, gan ledaenu'r adnoddau sydd ar gael yn fwy tenau.

Heb amheuaeth, er bod pob un o'n cyrff cyhoeddus a'n strwythurau partneriaeth wedi'i wreiddio mewn rhesymeg â bwriad da, mae'r effaith gyfunol yn rhy gymhleth.

Mae'r cymhlethdod hwnnw'n arwain at system sy'n gallu bod yn dameidiog ac yn araf, gyda chyfrifoldebau sy'n gorgyffwrdd a llinellau atebolrwydd aneglur. Gall y cymhlethdod hwn rwystro trawsnewid a'i gwneud hi'n anodd i ddinasyddion lywio gwasanaethau neu ddeall pwy sy'n gyfrifol am beth.

Mae ein gwaith hefyd yn dangos faint o gyrff cyhoeddus sydd yn aml yn methu â dirnad persbectif defnyddwyr gwasanaethau. Mae hyn yn effeithio ar ddylunio gwasanaethau, dealltwriaeth y cyhoedd o linellau atebolrwydd, a gallu defnyddwyr gwasanaeth i lywio'r hyn a all fod yn systemau cymhleth a heb eu cyfeirio'n dda.

Ymddiriedaeth a hyder

Mae gennyf bryderon cynyddol am ddirywiad ymddiriedaeth a hyder mewn gwasanaethau cyhoeddus a strwythurau llywodraethu ledled Cymru.

Nid yw hynny'n unigryw i Gymru ac mae ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth yn cyfrannu at hyn – materion geowleidyddol ehangach a gwleidyddiaeth ddomestig, newidiadau cymdeithasol, newid yn y ffordd y mae pobl yn mynd at y cyfryngau, gwybodaeth a dadansoddiad, barn y cyhoedd ar wleidyddiaeth yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae rhai ffactorau, fodd bynnag, o dan ein rheolaeth, i raddau mwy helaeth. Er mwyn ennill a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd, mae'n rhaid i ni ddangos yn gyson bod darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn amserol ac o ansawdd da. Pan fydd canlyniadau'n wael ac nad ydynt i'w gweld yn gwella – neu eu bod yn gwaethgu – nid yw'n syndod bod y cyhoedd yn colli hyder yng ngallu'r sector cyhoeddus. Nid

cymaint yn ymdrechion unigolion a gwasanaethau rheng flaen, ond yn sefydliadol ac fel system gyfan.

Gwyddom o'n gwaith ein hunain a thystiolaeth ehangach bod tlodi ac anghydraddoldeb yn parhau i fod wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn llawer o gymunedau, er gwaethaf ymdrechion gorau llywodraeth leol ac eraill.

Yn yr un modd, mae fy ngwaith yn y GIG wedi dangos bod methu â chyrraedd targedau mewn meysydd allweddol fel amseroedd aros ar gyfer triniaethau dewisol ac amseroedd trosglwyddo ambiwlansys, yn anffodus, wedi dod yn sefyllfa arferol erbyn hyn. Mae hyn yn effeithio ar forâl staff a bydd yn lliwio barn cleifion.

Ffactor arall, yr wyf i'n gallu ei weld yn uniongyrchol, yw llywodraethiant. Efallai nad hwn yw'r achos mwyaf amlwg o ran diffyg hyder y cyhoedd, ond credaf ei fod yn bwysig.

Mae'r mwyafrif llethol o sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cael eu llywodraethu'n dda, y rhan fwyaf o'r amser. Yn anffodus, fodd bynnag, rwyf wedi adrodd ar ormod o enghreifftiau o lywodraethiant sefydliadol gwael ym mhob haen o'r sector cyhoeddus – o Lywodraeth Cymru ei hun i'r GIG, llywodraeth leol, rhai sefydliadau llywodraeth ganolog, a'r haen leiaf o lywodraeth yn ein cynghorau tref a chymuned.

Rwy'n ofni bod hyd yn oed nifer fach o achosion o'r fath yn lliwio safbwynt y cyhoedd o lywodraethiant y sector cyhoeddus yn gyffredinol. Mae'r methiannau hyn bob amser yn cynnwys rhai gwendidau yn y broses, fel cadw cofnodion gwael, cymhwyso polisi'n wael, neu ddiffyg tryloywder. Ond yn fwy arwyddocaol, yn fy marn i, mae llawer o fethiannau llywodraethiant mewn sefydliadau cyhoeddus wedi'u gwreiddio nid yn y broses, ond mewn ymddygiad dynol.

Os yw'r rhai yn y sector cyhoeddus, yn enwedig mewn swyddi arweinyddiaeth, yn colli golwg ar y gwerthoedd a'r mathau o ymddygiad gofynnol, mae'r effeithiau'n niweidiol. Maent yn ymddangos ar ffurf gwneud penderfyniadau gwael, perthnasoedd yn chwalu, arian cyhoeddus yn cael ei wastraffu – talu setliadau, ffioedd cyfreithiol neu ymgynghori – ac arweinyddiaeth sefydliadol a darpariaeth gwasanaethau â diffyg ffocws.

A phob tro y mae'r cyhoedd yn gweld enghreifftiau o'r fath, mae'n tanseilio ymhellach eu hyder a'u hymddiriedaeth: ymddiriedaeth sy'n hanfodol os bydd y cyhoedd i gefnogi'r math o drawsnewid sydd ei angen arnom i wneud ein gwasanaethau cyhoeddus yn gynaliadwy ar gyfer y tymor hir.

Cyfleoedd i wneud pethau'n well

Cael y pethau sylfaenol yn gywir

Mae cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus effeithiol yn dechrau gyda chael y pethau sylfaenol yn gywir. Mae blynyddoedd o bwysau ariannol wedi gadael rhai meysydd pwysig heb fuddsoddiad digonol ac mae angen ymdrin â hyn os ydym eisiau gwella gwasanaethau a chynyddu cynhyrchiant y sector cyhoeddus.

Digidol

Mae'r dechnoleg eisoes yn bodoli i drawsnewid cyflenwi gwasanaethau, lleihau costau a gwella profiad y defnyddiwr. Rwy'n cydnabod bod y sector cyhoeddus eisoes yn gweithio i wella ei ddull gweithredu o ran gwireddu manteision datrysiadau digidol a nodi gwasanaethau sydd angen eu trawsnewid.

Mae'n rhaid i'r gwaith hwn newid systemau TG hynafol, gwella ansawdd a rhannu data, recriwtio a chadw sgiliau prin y mae galw mawr amdanynt ar draws yr economi, ac ail-lunio cyflenwi gwasanaethau gyda dinasyddion a defnyddwyr wrth wraidd hynny. Mae'r her yn sylweddol.

Mae'r enillion effeithlonrwydd posibl yn y gwasanaethau hynny'n enfawr, gyda gwasanaethau cyhoeddus mwy modern ac ymatebol yn cyflenwi gwell gwasanaeth i gwsmeriaid. Fodd bynnag, rwyf i hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd cydbwysu gwariant ar seilwaith â gwaith i ymdrin ag achosion sylfaenol allgau digidol. Ac er bod deallusrwydd artifisial yn cyflwyno cyfle gwych, nid yw heb risg.

Mae fy ngwaith ar strategaethau digidol cynghorau wedi datgelu cynnydd anwastad. Dim ond hanner cynghorau Cymru oedd â strategaethau digidol cyfredol, ac nid oedd gan lawer ohonynt drefniadau cadarn ar gyfer darparu adnoddau, monitro a gwerthuso effaith.

Yn y GIG, gall trawsnewid digidol fod yn araf iawn a gall cyfyngiadau cyllid a chapasiti, heriau llywodraethu gwybodaeth, a diffyg cysondeb o ran y dull 'Unwaith i Gymru' ei wneud yn anoddach byth.

Mae un enghraifft wych o'r heriau hyn i'w gweld yn fy adroddiad blaenorol ar weithredu System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru lle, yn anffodus, nid oedd gwirionedd gweithredu yn bodloni'r uchelgais wreiddiol.

Yn fwy penodol ac yn agosach at adref, byddai'n bosibl gwneud fy ngwaith archwilio yn llawer mwy effeithlon ac effeithiol pe bai gan y cyrff yr ydym yn eu harchwilio systemau modern ar gyfer eu gwybodaeth ariannol a pherfformiad. Mewn llawer o achosion, mae gan gyrff systemau annibynadwy sy'n heneiddio ac sy'n anodd eu holi neu eu hintegreiddio.

Mae llawer o systemau'n hen ac nid ydynt yn addas i'r diben, gan gyfyngu ar allu sefydliadau i reoli gweithrediadau'n effeithiol neu ddarparu data amserol, dibynadwy ar gyfer archwilio a gwneud penderfyniadau. Mae'r diffyg technolegol hwn yn rhwystro sicrwydd ac atebolrwydd, ac yn hanfodol, y gallu i foderneiddio a chyfuno gwasanaethau i'w gwneud yn fwy effeithlon a gwella profiad y defnyddiwr terfynol.

Felly nid yw buddsoddi mewn llwyfannau cyllid a pherfformiad wedi'u diweddarau er budd yr archwilydd yn unig – mae hynny'n fater cymharol ymylol. Y cwestiwn pwysicaf, a'r hyn a ddylai fod ar flaen meddyliau uwch arweinwyr, yw sut y gallant ddisgwyl cynnal sefydliadau wedi'u llywodraethu'n dda, a gwneud penderfyniadau gwybodus, hebddyn nhw? Gall systemau sydd wedi heneiddio hefyd gynyddu risgiau seiberddiogelwch, rhywbeth na all cyrff cyhoeddus fforddio bod yn hunanfodlon yn ei gylch.

Gweithlu

Mae pwysau ar y gweithlu yn thema barhaus ar draws fy ngwaith. Ym mhob sector a llawer o feysydd arbenigol, mae heriau staffio – wedi'u gwaethygu gan y galw cynyddol – wedi rhoi straen ar ddarpariaeth gwasanaethau.

Mae enghreifftiau o'n gwaith yn cynnwys heriau capasiti a gallu yng ngwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru, pwysau sy'n deillio o heriau recriwtio a chadw yn y GIG ac addysg, ac mewn meysydd arbenigol eraill fel trawsnewid digidol, cynllunio, teithio llesol, diogelwch adeiladau, ac amddiffyn rhag llifogydd.

Gwelwn yn ein harchwiliad o waith cyfrifon hefyd fod llawer o sefydliadau yn cael trafferth recriwtio a chadw gweithwyr cyllid proffesiynol o ansawdd uchel. Mae hyn yn bryder, ac nid yn unig oherwydd bod angen i'r bobl hyn helpu i gynhyrchu setiau o gyfrifon o ansawdd da, ond oherwydd bod gan y proffesiwn cyllid ran bwysig wrth lunio llwybr i ddyfodol mwy cynaliadwy i'n gwasanaethau cyhoeddus.

Mae cystadleuaeth am sgiliau arbenigol yn anorfod, hyd yn oed o fewn y sector cyhoeddus, a bydd bob amser cwestiynau i gyrff cyhoeddus ofyn i'w hunain am yr hyn y maen nhw'n ei wneud yn fewnol a beth allai sefydliadau eraill ei wneud. Ond mae angen dull cryfach o ddatblygu strategaethau gweithlu cydlynol, creu modelau staffio sy'n gydnaws ag anghenion gwasanaethau yn y dyfodol, a datblygu staff yn

unol â hynny. Heb hyn, mae uchelgeisiau polisi yn wynebu risg o gael eu tanseilio gan gyfyngiadau gweithredol.

Rheoli asedau a seilwaith

Mae cynnal a chadw a gwella asedau presennol yn effeithlon, megis ffyrdd, ysbytai, ysgolion ac amddiffynfeydd rhag llifogydd yr un mor bwysig â chael gwerth am arian wrth ddatblygu seilwaith newydd. Wedi'r cyfan, bydd asedau newydd ond yn darparu y manteision a addawyd os cânt eu cynnal yn briodol.

Yn rhy aml mae ein gwaith wedi tynnu sylw at ymdrechion ofer i fod yn ddarbodus drwy ganiatáu ôl-groniadau gwaith cynnal a chadw. Nid lleiaf o fewn y GIG, lle gall heriau gydag ystad sydd wedi dyddio achosi aneffeithlonrwydd, cost ac effaith negyddol ar ofal cleifion.

Felly mae dull gweithredu disgybledig o ran rheoli asedau, ar gyfer pob rhan o'r ystad gyhoeddus, yn elfen hanfodol o'r newid y mae angen i ni ei weld.

Ar y cyfan, mae Llywodraeth Cymru yn gwario mwy na £3 biliwn y flwyddyn ar seilwaith, er bod llawer o hynny'n cael ei gyflawni drwy gyrff cyhoeddus eraill. Mae fy adolygiad diweddar o sut mae'r Llywodraeth yn rheoli'r gwariant sylweddol hwnnw yn dangos ymdrech glir i'w alinio â chanlyniadau strategol ehangach.

Ond ni fydd y buddion hyn yn ymddangos heb unrhyw ymdrech. Bydd angen ymdrech ar y cyd i drefnu dulliau'r llywodraeth – ymwreiddio'r manteision hyn mewn cynlluniau o'r cychwyn cyntaf a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni dros y tymor hwy. Mae hi o fewn gallu Llywodraeth Cymru i gywiro'r materion hyn, ond maent yn dibynnu ar welliant parhaus mewn rheoli rhaglenni a phrosiectau nad yw wedi'i gyflawni hyd yma.

Mae'r gwendidau sylfaenol yn rhai o flociau adeiladu sylfaenol ein gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrannu at yr ail faes y credaf fod angen newid, sef cynhyrchiant a gwerth am arian yn y sector cyhoeddus.

Cynhyrchiant a gwerth am arian

Yn wyneb pwysau'r galw cynyddol a chyllidebau wedi'u hymestyn fwyfwy, mae gwella cynhyrchiant a darparu gwell gwerth am arian yn hanfodol.

Mae ein gwaith yn tynnu sylw at rai o heriau cynhyrchiant i'r sector cyhoeddus, yn enwedig yn y GIG lle nad yw'r allbynnau o ran gweithgarwch wedi cynyddu yn

gymesur â mewnbynnau ychwanegol o ran arian a chapasiti mewn meysydd fel gofal wedi'i gynllunio.

Rwy'n siŵr bod arweinwyr ar draws y sector cyhoeddus yn rhannu uchelgais i wneud newid sylweddol o ran cynhyrchiant. Mae digon o dystiolaeth o'r enghreifftiau cadarnhaol yr ydym wedi'u canfod yn ein gwaith i fod yn hyderus y gellir rhyddhau symiau sylweddol o arian cyhoeddus. Ond bydd angen dull disgybledig, wedi'i ganolbwyntio, traws-lywodraethol dros sawl blwyddyn i wireddu'r potensial yn llawn a gwneud yr eithriadol yn arferol.

Felly, mae fy adroddiadau yn tynnu sylw at y ffaith nad yw Gwerth am Arian yn ymwneud â gwario llai yn unig, mae'n ymwneud â gwneud yr arian sydd gennym weithio'n well. Enghraifft dda yw nifer y bobl sydd yn yr ysbyty yn aros i gael eu rhyddhau. Er bod rhywfaint o welliant wedi bod yn ddiweddar, mae'r darlun ledled Cymru yn parhau i fod yn heriol, gan lyncu costau enfawr ac effeithio'n niweidiol ar lif cleifion a'r adsefydlu gorau posibl i gleifion.

Mae llawer o oedi wrth ryddhau o ganlyniad i aros am gymorth gofal cymdeithasol, sy'n aml yn gysylltiedig â phwysau cyllid ac adnoddau mewn awdurdodau lleol. Byddai gwell cyllid i gynyddu capasiti gofal cymdeithasol felly yn rhyddhau adnoddau sylweddol y GIG ac yn cynrychioli ffordd gost-effeithiol o wella profiad a chanlyniadau cleifion.

Yng nghyd-destun cyllidebau cyfyngedig a galw cynyddol, rhaid i gyrff cyhoeddus ganolbwyntio ar ddeilliannau, nid allbynnau'n unig, a sicrhau bod pob punt sy'n cael ei gwario yn cyfrannu'n ystyrlon at les y cyhoedd. Ar lefel sylfaenol iawn, mae ein gwaith yn dangos, yn rhy aml, nad oes gan gyrff cyhoeddus ddata dibynadwy i asesu gwerth am arian ac nad ydynt yn glir ynghylch y canlyniadau y maent yn ceisio'u cyflawni.

Dangosodd fy ngwaith ar Deithio Llesol, er enghraifft, sut mae Llywodraeth Cymru ei hun yn aneglur ynghylch sut y dylai ei pholisi gael ei asesu. O ganlyniad, buddsoddwyd symiau sylweddol heb ffordd gadarn o asesu ei effeithiolrwydd a'i werth am arian.

Ac rwyf wedi adrodd yn flaenorol ar sut nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon i sicrhau bod ei buddsoddiad mewn tai fforddiadwy yn cyfrannu at amcanion polisi ehangach ac i allu dweud stori glir i'r perwyl hwnnw.

Mae adrodd ar ganlyniadau'n effeithiol yn achosi trafferth i lawer o sefydliadau cyhoeddus. Mae perfformiad yn dueddol o ganolbwyntio ar allbynnau—megis nifer y

gwasanaethau a gyflenwir—heb werthuso'r gwahaniaeth y mae'r gwasanaethau hynny yn ei wneud.

Mae'n hanfodol hefyd bod y sector cyhoeddus yn gweld gwerth am arian trwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effeithiau hirdymor, atal, integreiddio, cydweithredu a chymryd rhan. Fel yr wyf i wedi pwysleisio trwy fy adroddiadau ar weithredu'r Ddeddf, ni allwn fforddio i wasanaethau cyhoeddus ddylunio atebion nad ydynt yn diwallu anghenion pobl, rhoi baich ar ysgwyddau cenedlaethau'r dyfodol o ran costau uwch y gellir eu hosgoi, neu golli cyfleoedd i gyflawni mwy gyda'r un arian neu lai o arian.

Mae'r ffocws dygn a llawr cliriach hwnnw ar ddarparu gwerth am arian hefyd yn gofyn am newid meddylfryd i un sy'n canolbwyntio ar atal a'r tymor hwy.

Newid i feddylfryd hirdymor, ataliol

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi amcangyfrif bod enillion o £14 am bob £1 a fuddsoddir mewn ymyriadau iechyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys llai o alw ar ysbytai, gofal cymdeithasol, tai, a gwasanaethau brys.

Ond yn rhy aml, mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu mewn modd argyfwng, gan ymateb i bwysau uniongyrchol yn hytrach na chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae cylchoedd cyllideb blynyddol, penderfyniadau cyllido adweithiol, a chymhellion gwleidyddol sy'n blaenoriaethu buddugoliaethau cyflym dros ganlyniadau cynaliadwy yn atgyfnerthu'r dull gweithredu tymor byr hwn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi fframwaith deddfwriaethol i wneud rhywbeth gwahanol – i weithredu am y tymor hir ac i weithredu'n ataliol trwy ymdrin ag achosion sylfaenol problemau, yn hytrach nag ymdrin â'r symptomau.

Fodd bynnag, rwyf i wedi tynnu sylw at rai enghreifftiau amlwg yn ddiweddar lle mae cyrff cyhoeddus wedi bod yn brwydro i wneud newid ystyrion tuag at atal, fel sydd i'w gweld, er enghraifft, yn fy ngwaith ar wasanaethau canser ac ar sut mae cynghorau yn rheoli'r galw am lety dros dro. Mae hyn er gwaethaf tystiolaeth glir bod buddsoddi mewn atal yn gwneud synnwyr o safbwynt gwerth am arian.

Er bod gan Gymru fframwaith deddfwriaethol trosfwaol i ysgogi meddylfryd ataliol tymor hwy, mae ein gwaith yn awgrymu nad yw'n cyflawni hynny eto.

O ran atal, un o'r heriau yw bod buddion yn cymryd amser i'w gwireddu. Gall yr oedi hwn wneud atal yn wleidyddol ac yn weithredol anodd, yn enwedig yn erbyn cefndir o

bwysau ariannol. Fodd bynnag, mae'r enillion hirdymor—mewn ieched, lles, ac arbed costau—yn sylweddol ac mae tystiolaeth dda i gefnogi hyn.

Mae gan Lywodraeth Cymru ran hanfodol wrth alluogi atal. Mae hyn yn cynnwys gosod fframweithiau polisi cydlynol, cydweddu dulliau cyllido, a chreu cymhellion ar gyfer cydweithredu.

Mae'n rhaid iddo arwain newid tuag at gynllunio ariannol hirdymor, modelau cyflawni integredig, a gweithio traws-sector. Mae hyn yn golygu dileu gweithio heb ymwneud ag eraill a sicrhau bod atal yn flaenoriaeth i'r llywodraeth gyfan.

Nid yw'n bosibl cyflawni atal trwy raglenni unigol. Mae'n gofyn am newid system gyfan mwy radical a gweithio ar y cyd rhwng amrywiaeth o asiantaethau fel ieched, gofal cymdeithasol, tai, addysg, a'r trydydd sector, gydag atebolrwydd a ffrydiau cyllido a chanlyniadau cyffredin. Rhaid i atal gael ei gynnwys nid yn unig mewn dogfennau strategaeth, ond mewn penderfyniadau bob dydd, cyllidebu a dylunio gwasanaethau. Heb hyn, mae unrhyw ddyheadau polisi ynghylch atal yn wynebu risg o ddod yn fwy o rethreg na gwirionedd.

Lleihau cymhlethdod

Fel y nodwyd yn gynharach, mae cyd-destun presennol gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn we o sefydliadau, partneriaethau a strwythurau llywodraethu. Mae'r effaith gronol yn system sy'n dameidiog ac yn anodd ei llywio.

Er nad fy rôl i yw creu glasbrint ar gyfer dewis arall, rwy'n credu bod angen symleiddio ac osgoi cymhlethdod pellach. Pe bawn yn dechrau â dalen lân o bapur, yn sicr, ni fyddem yn dylunio'r trefniadau sydd gennym ni ar waith ar hyn o bryd.

Nid yw lleihau cymhlethdod yn ymwneud â datgymalu cydweithredu ond ei symleiddio. Mae angen llai o strwythurau a rheini'n rhai cliriach gyda llinellau atebolrwydd pendant wedi'u diffinio'n dda.

Nid yw hyn ychwaith yn ymwneud ag ad-drefnu nifer y cyrff cyhoeddus neu wneud eu cydweithredu â'i gilydd yn fwy effeithiol. Mae lleihau cymhlethdod a chryfhau integreiddio a chydweithredu yr un mor berthnasol i weithredu mewnol sefydliadau cyhoeddus. Mae'r rhain yn ddisgwyliadau sydd wedi'u gosod gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol lle mae ein gwaith yn dangos bod angen gwneud llawer mwy.

Rhaid i ddylunio sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion fod yn sail i'r broses symleiddio hon: dylai gwasanaethau gael eu trefnu o amgylch anghenion pobl, nid er cyfleustra

sefydliadau. Mae hyn yn golygu ymgysylltu â chymunedau wrth lunio gwasanaethau, defnyddio iaith glir wrth gyfathrebu, sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ystyrlon ac yn hygyrch, ac ystyried cydraddoldeb ac effeithiau eraill penderfyniadau. Mae hefyd yn golygu bod yn onest â'r cyhoedd ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr â darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus diogel a fforddiadwy, yn enwedig o ran gwasanaethau iechyd a gofal.

Byddai gwasanaeth cyhoeddus symlach yng Nghymru hefyd yn helpu i ddileu gweithio heb ymwneud ag eraill o fewn, a rhwng, sectorau ac yn cefnogi rhannu ac ymwreiddio arfer da yn well. Mae'n ymddangos bod Cymru'n cael trafferth â'r olaf, ac yn rhy aml mae fy ngwaith yn nodi amrywiad annerbyniol mewn perfformiad nad oes esboniad ar ei gyfer ar draws gwahanol gyrff cyhoeddus. Mae hyn er gwaethaf ein maint cymharol fach a chysylltiadau agos llawer yn y sector cyhoeddus. Pan fydd arfer da yn cael ei sefydlu mewn rhan o'r sector cyhoeddus, efallai y bydd angen dull mwy cadarn o 'fabwysiadu neu gyfiawnhau' mewn mannau eraill.

Fel Archwilydd Cyffredinol rwy'n gweld cymhlethdod yn amlygu ei hun mewn ffyrdd eraill, gan gynnwys trwy ein harchwiliad blynyddol o gyfrifon cyrff y sector cyhoeddus. Mae'r gwaith hwn yn bwnc sych i rai, ac mae'r gwaith hwn yn hanfodol os yw'r cyhoedd a'r Senedd eisiau cael darlun cywir ac amserol o gyflwr y cyllid cyhoeddus. I sefydliadau unigol, mae'r cywirdeb a'r prydlondeb hwnnw'n hanfodol os yw penderfyniadau da yn mynd i gael eu gwneud.

I'n hawdurdodau lleol, er enghraifft, mae'r gyfundrefn ariannol y maent yn gweithredu ynddi yn dod yn fwyfwy technegol gyda phwyslais anghymesur ar bethau fel prisiadau asedau a rhwymedigaethau pensiwn. Maent yn bwysig, ond hefyd yn cuddio'r hyn sy'n wirioneddol bwysig i ddefnyddwyr – cynghorwyr, swyddogion, y cyhoedd – sef, sut mae arian cyhoeddus yn cael ei wario a'r gwerth y mae'n ei ddarparu.

Rwy'n gweld rhai heriau penodol yn datblygu yn y maes hwn a fydd, os nad ymdrinnir â nhw, yn gwanhau'r drefn ariannol gyffredinol yn gyflym ac yn arwain at wneud penderfyniadau gwael a lleihau tryloywder.

Arweinyddiaeth

Bydd ymdrin â'r meysydd yr wyf wedi'u crybwyll yn gofyn am arweinyddiaeth wleidyddol a gweithredol.

Mae hynny'n golygu bod yn onest am faint y newid sydd ei angen arnom, gwneud penderfyniadau anodd, a chyfathrebu'r cyfaddawdau angenrheidiol yn glir. Mae hefyd

yn golygu bod yn esiampl ar gyfer y mathau o ymddygiad yr ydym eisiau eu gweld: uniondeb, cydweithredu, a ffocws dygn ar ganlyniadau.

Mae gan Lywodraeth Cymru ran ganolog i'w chwarae wrth alluogi'r trawsnewidiad hwn. Mae'n arwain ein system, yn gosod y tôn, ac yn darparu'r fframweithiau deddfwriaethol ac ariannol y mae cyrff cyhoeddus eraill yn gweithredu ynddynt. Er bod Llywodraeth Cymru yn gwneud llawer sy'n dda, yn rhy aml rwy'n adrodd bod angen iddi fod yn gliriach ac yn fwy cadarn wrth arwain systemau.

Mae fy ngwaith hefyd wedi tynnu sylw at enghreifftiau lle y gall Llywodraeth Cymru wneud mwy i gefnogi gweithredu'r ddeddfwriaeth y mae wedi'i chyflwyno a gwneud gwaith dilynol i nodi a yw'n cael ei gweithredu'n effeithiol ac yn cael yr effaith a ddymunir.

Rhaid iddi ddarparu eglurder a chydlyniant ar draws polisïau, cyllid a fframweithiau atebolrwydd. Mae negeseuon cymysg – megis hyrwyddo atal wrth ysgogi targedau perfformiad tymor byr – yn tanseilio cynnydd.

Mae'r neges hon wedi bod yn ganolog mewn llawer o'r gwaith yr ydym wedi'i gyflawni ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er enghraifft, nad yw'r disgwyliad ar sefydliadau i gynllunio a gweithredu ar gyfer y tymor hir a gydag atal mewn golwg, yn cael ei danseilio gan benderfyniadau ariannu, gosod targedau, a fframweithiau atebolrwydd sy'n cymhell y gwrthwyneb.

Rwy'n cydnabod y pwysau dwys sy'n wynebu arweinwyr y sector cyhoeddus. Mae'r rhain yn swyddi anodd. Mae'n dyst iddynt fod ein gwaith yn aml yn tynnu sylw at enghreifftiau o arfer da lle mae arweinwyr wedi gwneud penderfyniadau beiddgar mewn amgylchiadau anodd.

Ond fel y nodwyd eisoes, mae fy ngwaith ar lywodraethu a thryloywder hefyd wedi taflu goleuni ar y nifer fach o achosion lle mae arweinyddiaeth yn methu â chynnal y gwerthoedd a ddymunir. Gall y canlyniad fod yn gostus, mae hyder y cyhoedd yn lleihau ac effeithiolrwydd gwasanaeth yn dioddef.

Mae'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gymhleth ac yn systemig. Nid yw'n bosibl eu datrys trwy atgyweiriadau technegol neu newid cynyddol. Maent yn gofyn am benderfyniadau beiddgar, sgysiau onest, ac ymrwymiad cyffredin i wneud yr hyn sydd ei angen arnom.

Casgliad

Er gwaethaf yr heriau sylweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus, mae cyfle ar gyfer diwygio a gwella ystyrion, yn enwedig os ymdrinnir yn ddifffuant â'r themâu yr wyf wedi'u disgrifio.

Mae Cymru'n wlad fach, â rhwydweithiau tyn; poblogaeth o ychydig dros dair miliwn; senedd ddeddfwriaethol sydd newydd ei hehangu a llywodraeth gydag ymreolaeth sylweddol; mae ei chyllideb gwariant cyhoeddus o bron i £30 biliwn yn cynrychioli bron i draean cynnyrch domestig gros Cymru; ac er gwaethaf yr heriau, mae ei sector cyhoeddus yn hynod alluog ac wedi'i adnoddau'n dda o'i chymharu â llawer o wledydd.

Un o'n manteision yw ein maint. Rydym yn ddigon mawr i weithredu'n strategol ond yn ddigon bach i fod yn ystwyth, cydweithredol ac arloesol. Gallwn gynnwys y chwaraewyr allweddol ar unrhyw fater, gan ein galluogi i weithredu'n gyflym ac yn gydlynol mewn ffordd sy'n llawer anoddach mewn awdurdodaethau mwy. Mae hynny'n sylfaen wych i weithio ohoni.

Mae ehangu'r Senedd i 96 o aelodau yn garreg filltir arwyddocaol arall yn nemocratiaeth Cymru. Bydd y sector cyhoeddus, yn gwbl briodol, yn edrych ar y Senedd newydd honno a Llywodraeth Cymru am arweinyddiaeth wrth ymdrin â'r heriau yr wyf wedi'u hamlinellu.

Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y ddeddfwrfa ehangach yn defnyddio ei gallu ychwanegol i wella craffu ac atebolrwydd, a thrwy hynny gryfhau llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Os na fydd yn gwneud hynny, bydd newid cyfansoddiadol nad oed yn hawdd ei ennill wedi cael ei wastraffu.

Wrth wneud hynny, y neges y byddwn i'n ei gadael ar ôl wyth mlynedd yn rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw bod angen trawsnewid radical.

Mae'n bosibl, ond bydd yn anodd, a bydd angen eglurder o ran diben ar raddfa'r hyn a welwyd yn ystod blynyddoedd Covid.

Mae arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru yn cydnabod maint yr her ac mae llawer eisoes yn llywio cyd-destunau cymhleth gydag adnoddau cyfyngedig. Ond mae angen cynyddu'r cyflymder a'r cynnydd.

Os na fydd hyn yn digwydd, ni fydd ein model presennol o ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn gynaliadwy. Bydd arian yn cael ei wasgaru hyd yn oed yn deneuach byth, bydd gwasanaethau'n parhau i ddirywio, a bydd canlyniadau'n

gwaethygu. Mae'n rhaid newid o ymateb i faterion wrth iddynt godi, i ddiogelu at y dyfodol hirdymor, fel yr wyf wedi galw amdano'n gyson.

Mae gan Lywodraeth Cymru ran hanfodol o ran darparu arweinyddiaeth ac wrth greu'r amodau ar gyfer trawsnewid. Mae hyn yn cynnwys lleihau ansicrwydd cyllido lle bo'n bosibl, cydweddu fframweithiau polisi a chyflawni, cymell cydweithredu ac annog buddsoddiad mewn atal. Rhaid iddi hefyd arwain trwy esiampl, gan ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei gweithrediadau ei hun a sicrhau bod ei gweithredoedd yn cyd-fynd â'i diben polisi.

A hyd yn oed bryd hynny, bydd llwyddiant yn dibynnu ar unigolion yn gwneud y dewisiadau cywir. Mae cyllid, proses, fframweithiau a pholisïau'n bwysig, ac wrth gwrs mae gwaith archwilwyr, rheoleiddwyr, gwleidyddion, a'r cyfryngau yn hanfodol i ddwyn sefydliadau cyhoeddus i gyfrif. Ond ni allai'r craffwyr hynny fod ym mhobman, ac ni ddylent fod. Yn y pen draw, mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn dibynnu ar filoedd o bobl yn gwneud y dewisiadau cywir, yn gwneud y penderfyniadau cywir, ac yn gweithredu yn y ffordd gywir.

Yr her i arweinwyr y llywodraeth a sefydliadau ledled y sector cyhoeddus yw gwneud hynny mor hawdd â phosibl – i arwain trwy esiampl, i fodelu'r mathau o ymddygiad a ddymunir, i roi eglurder am faint yr her a'r caniatâd i wneud y newidiadau angenrheidiol, ac i greu amgylchedd lle y gall pawb yn y gwasanaeth cyhoeddus chwarae eu rhan.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon